Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board

Adolygiad Diogelu Unedig Sengl
Single Unified Safeguarding Review

| |
|---|
| **Enw'r Bwrdd Diogelu:**<br><br>Cwm Taf Morgannwg |
| **Cyfeirnod Unigryw'r ADUS:**<br><br>**SUSR-2024-01/CTM CHILD G** |
| **Ffugenw 1:**<br><br>Plentyn 1<br>Violet Rose |
| **Dyddiad y digwyddiad a arweiniodd at yr Adolygiad:**<br><br>**Mis: 02**<br>**Blwyddyn: 2024** |
| **Dyddiad y farwolaeth**<br><br>**Mis: 02**<br>**Blwyddyn: 2024** |
| **Dyddiad dechrau'r adolygiad (wedi'i gomisiynu):** 17/02/2025<br><br>**Dyddiad cwblhau'r adolygiad (wedi'i gymeradwyo a'i lofnodi):** 09/04/2026<br><br>**Dyddiad cyhoeddi:** Cliciwch neu tapiwch i ychwanegu dyddiad. |

| |
|---|
| **Amlinelliad o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad:**<br><br>Fe gomisiynwyd Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) gan Fwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg ar argymhelliad ei Grŵp Adolygu Achosion ar y Cyd yn unol â Chanllawiau Statudol Llywodraeth Cymru.[1] Bodlonir y meini prawf ar gyfer yr Adolygiad hwn dan:<br><br>4.4 Adolygiad Cryno Ymarfer Plant: yn yr achos hwn, bu farw'r plentyn, Violet Rose. Adnabu'r Grŵp Adolygu ar y Cyd 'nifer o gyfleoedd posibl a gollwyd, [a] ...gwersi amlasiantaeth mewn perthynas ag ymgeisiau blaenorol i gyflawni hunanladdiad a'r materion a oedd yn ymwneud â bwlio' fel ei sail resymegol dros gomisiynu Adolygiad.<br><br>Bodlonwyd y maes prawf allweddol ar gyfer ADUS, sef y tebygolrwydd o wersi amlasiantaeth 4.2. |
| Ffugenw a ddewiswyd gan ei mam a'i llystad yw Violet Rose, a hynny gan bod hwn yn enw yr oedd yn dwlu arno. |

[1] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-12/adolygiad-diogelu-unedig-sengl-adus-canllawiau-statudol.pdf.

Fe wnaeth yr asiantaethau canlynol ddarparu aelodau o'r panel ar gyfer yr Adolygiad a chwblhau llinell amser a dadansoddiad o'u hymwneud hwy:

- Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol
- Addysg
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), Adran Damweiniau ac Achosion Brys yr Ysbyty, Gofal Sylfaenol
- Heddlu
- Cymdeithas Dai
- Asiantaeth yn y Trydydd Sector sy'n darparu gwasanaeth Cymorth Cynnar.

Fe geisiwyd gwybodaeth ychwanegol gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru ynglŷn â'u hymwneud hwy. Fe ddibynnodd yr Adolygwyr ar aelodau'r panel i geisio atebion i gwestiynau penodol neu fylchau a oedd i'w gweld fel pe baent yn bodoli yn y cronolegau a gynhyrchwyd. Fe wnaeth yr holl asiantaethau a gynhyrchodd gronoleg gynhyrchu adroddiadau cryno hefyd o'u hymwneud cyn y ffrâm amser y cytunwyd arni ar gyfer yr Adolygiad, sef 2 flynedd rhwng 08.02.22 a 06.02.2024. Fe gytunwyd ar y ffrâm amser hon oherwydd nifer y digwyddiadau arwyddocaol yn y ddwy flynedd hon yr oedd y Panel yn teimlo eu bod yn cyfrannu at ddarlun mwy cyfoethog o lawer o frwydrau Violet Rose.

Roedd yr Adolygwyr yn gallu bwrw golwg ar ddogfennau penodol, megis cofnodion PRUDIC (Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl Plant), asesiad risg a Chynllun Diogelwch WARRN (Rhwydwaith Ymchwil Risg Gymhwysol Cymru (WARRN) Violet Rose, llythyrau a gynhyrchwyd gan y Seiciatrydd Ymgynghorol CAMHS a'i hofferyn tracio cynnydd yn yr Ysgol ym Mlwyddyn 11.

Fe gynhaliodd yr Adolygwyr chwiliad llenyddiaeth a oedd yn canolbwyntio ar y cysylltiadau rhwng diagnosis Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig (ASD) ac ymgeisiau i gyflawni hunanladdiad neu achosion o gwblhau hunanladdiad ac fe ymchwilion nhw i'r gwahaniaethau mewn ymgyflwyniad rhwng bechgyn a merched ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig. Fe wnaed cais am chwiliad o Ystorfa Ddiogelu Cymru hefyd gan ddefnyddio CAMHS/Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig/Addysg/hunan-niweidio/hunanladdiad/cyfathrebu gwael rhwng asiantaethau fel meini prawf gan ddefnyddio'r cwestiwn allweddol 'Beth mae Adolygiadau Ymarfer Plant blaenorol yn ei ddweud wrthym am achosion lle mae gan rywun Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig a hwythau'n cyflawni hunanladdiad?'. Er bod 6 Adolygiad wedi'u cynnwys yng nghanlyniadau'r chwiliad â geiriau allweddol, dim ond un (CYSUR 7/2018[2]) o 2021 oedd ag unrhyw berthnasedd uniongyrchol i'r Adolygiad hwn. Roedd yr Adolygiad hwn yn ymwneud â bachgen 14 oed y bu iddo yntau gwblhau hunanladdiad: roedd yntau wedi profi bwlio ac yn niwrowahanol. Mae rhai o'r gwersi a adnabuwyd yn cyd-daro â themâu o Adolygiad Violet Rose, yn benodol Pwyntiau Dysgu 3, 4 a 7 isod:

Pwynt Dysgu 3: Bydd angen i bob asiantaeth gydymffurfio â gweithredu Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd Cymru, Rhagfyr 2018 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Er mwyn cryfhau (gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn) llais a'r modd y cynhwysir plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn eu Cynllun Datblygu Unigol (CDU), bydd hi'n ofynnol darparu tystiolaeth i ddangos eu bod wedi cael eu hannog i gyfranogi mewn prosesau penderfynu, a bod barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn/person ifanc a'u rhieni/gofalwyr wedi cael eu hystyried o ddifrif ym mhob cyfarfod/adolygiad.

[2] cysur-7-2018-final-report.pdf

Pwynt Dysgu 4: Mae angen i bob ysgol ac Awdurdod Lleol sicrhau bod eu hymarfer, eu hyfforddiant a'u canllawiau polisi lle mae bwlio yn y cwestiwn yn cydymffurfio ac yn cydnabod natur fwy agored i niwed plant a all fod ag anghenion dysgu ychwanegol, materion iechyd meddwl a llesiant emosiynol, a all fod wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, neu a all fod ag anableddau. Mae angen iddynt gydymffurfio â Chanllawiau Llywodraeth Cymru, Cadw Dysgwyr Yn Ddiogel 270/202165 a Hawliau, Parch, Cydraddoldeb: Canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir.

Pwynt Dysgu 7: Mae angen i'r holl ysgolion ystyried sut y maent yn sicrhau bod y cyfathrebu gyda rhieni'n amserol, yn gymesur ac yn effeithiol, o ran ymdrin ag unrhyw bryderon a all fod gan rieni mewn perthynas â llesiant eu plentyn a, lle y bo'n bosibl, bod canlyniad yn cael ei gyflawni a'i gofnodi.

Fe agorwyd Cwest, y cynhaliwyd y gwrandawiad ar ei gyfer ym mis Mawrth 2025. Fe gofnododd y Crwner gasgliad o hunanladdiad.

Cyfarfu'r Panel ar 7 achlysur ac fe gynhaliwyd Digwyddiad Dysgu â phresenoldeb da ar gyfer gweithwyr proffesiynol ar 09.09.2025. Roedd staff o ddwy ysgol uwchradd Violet Rose, Gofal Sylfaenol, CAMHS, yr Heddlu, Gwasanaethau Plant, Tai a'r 3ydd sector yn bresennol. Cyfarfu'r Adolygwyr â'r Seiciatrydd Ymgynghorol CAMHS ar wahân gan nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y Digwyddiad Dysgu oherwydd salwch a hefyd â Phennaeth Cynorthwyol Blwyddyn 7 ar y pryd, a oedd â pherthynas dda â Violet Rose yn ei hysgol uwchradd gyntaf.

Roedd Violet Rose yn byw mewn tref fawr yn ardal Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg. Gwyn oedd ei hethnigrwydd ac roedd hi ym Mlwyddyn 11 yn yr ysgol uwchradd ar adeg ei marwolaeth, a hithau'n nesáu at wneud ei harholiadau TGAU yr haf hwnnw.

Yn anffodus, fe gwblhaodd Violet Rose hunanladdiad â chwlwm ar 06.02.2024 gartref dros nos ac fe'i darganfuwyd gan ei mam a'i llystad yn gynnar y bore canlynol. Roedd ei mam a'i llystad ill dau'n teimlo nad oedd unrhyw arwydd bod dim hwyliau arni na'i bod yn teimlo'n hunanladdol pan aeth i'r gwely'r noson honno. Roedd ei chartref, sef eiddo gan gymdeithas dai ar ystâd fawr, yn cael ei rannu gyda'i mam, ei llystad a'i hanner brawd iau. Roedd gan Violet Rose chwaer hŷn a oedd newydd sicrhau ei heiddo ei hun iddi hi a'i mab ifanc. Cyn hyn, roedd hi'n byw gyda'i baban yng nghartref y teulu ac roedd ganddi berthynas glòs â Violet Rose. Roedd rhieni Violet Rose wedi gwahanu pan oedd hi'n bedair ac roedd ei llystad wedi bod yn ei bywyd er pan oedd hi'n bump oed. Roedd y berthynas â'i llystad yn agos yn ôl y ddau riant fel a ddangosir gan ei phenderfyniad i newid ei chyfenw i'w un ef. Nid oedd rhyw lawer o gyswllt o gwbl â'i thad biolegol, a oedd yn destun tristwch i Violet Rose yn ôl y sôn. Roedd ganddi hefyd hanner brawd arall a oedd yn byw gyda'i thad biolegol a'i bartner. Roedd Violet Rose yn efell ond, yn anffodus, bu farw ei hefell yn y groth. Roedd hi'n gwybod am ei hefell o oedran ifanc.

Mae teulu Violet Rose yn ei disgrifio fel rhywun 'unigryw': roedd hi'n arlunydd a ffotograffydd dawnus. A hithau'n ymddiddori'n fawr mewn diwylliant Coreaidd, fe ddysgodd Gorëeg yn annibynnol ac roedd yn aelod rhithwir o fand pop Coreaidd fel lleisydd. Roedd diddordebau eraill yn ei hudo, megis animeiddio Japaneaidd ac roedd hi hefyd yn sglefrfyrddwraig frwd. Roedd gan Violet Rose gynlluniau i fynychu coleg paratoi'r fyddin ac roedd hi i fod i gael cyfweliad yn hwyrach yn yr wythnos y bu hi farw. Roedd gan Violet Rose ychydig o ffrindiau da, er ei bod wedi profi bwlio gan ei chyfoedion. Symudodd i ysgol wahanol oherwydd hyn o Flwyddyn 10 ac roedd ei bywyd fel pe bai wedi gwella. Dywedodd ei mam wrth yr Adolygwyr fod ei hanner brawd wedi profi bwlio hefyd, a hwnnw'n aml yn hiliol o ran natur mewn perthynas â'i dreftadaeth Affricanaidd ar ochr ei dad i'r teulu ac fe gafwyd digwyddiad arwyddocaol ddiwrnodau yn unig cyn i Violet Rose farw lle ymosodwyd ar ei hanner brawd y tu allan i'r siop Tesco leol

a Violet Rose yn ffonio ei hen ewythr i ddod i'w helpu (hen ewythr Violet Rose gyfleodd hyn: nid oedd gan yr heddlu unrhyw gofnod o'i hymwneud â'r digwyddiad ac nid oedd yr heddlu'n credu ei bod hi'n bresennol erbyn iddynt hwy gyrraedd safle'r digwyddiad).

Dywedodd mam Violet Rose wrth yr Adolygwyr ei bod hi wastad wedi teimlo bod gan Violet Rose nodweddion Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig ond na allai gael asesiad er iddi ofyn am un ar sawl achlysur. Roedd gan Violet Rose hefyd feddyliau morbid hirsefydlog a oedd yn dyddio'n ôl i'w phlentyndod cynnar pan fyddai'n mynegi'r teimlad na ddylai fod yn fyw ac mai hi ddylai fod wedi marw yn hytrach na'i hefell. Roedd hwyliau isel yn aml yn nodwedd yn y cyfnod a archwiliwyd gan y llinell amser: hefyd, dangosai fwy o orbryder. Roedd gan Violet Rose hanes o ymddygiadau hunan-niweidiol hefyd a bu achosion blaenorol yr adroddwyd arnynt lle'r oedd wedi ceisio cyflawni hunanladdiad. Roedd Violet Rose yn ei chael hi'n anodd siarad gyda dieithriaid i'r graddau ei bod wedi cael ei disgrifio fel rhywun â mudandod dethol fel a ddigwyddodd yn ystod rhai apwyntiadau gyda CAMHS. Cymerai amser a dyfalbarhad i feithrin ymddiriedaeth a pherthynas a oedd yn galluogi Violet Rose i siarad ac roedd ganddi berthynas arbennig o dda ag aelod penodol o staff yn ei hysgol uwchradd gyntaf. Cafodd Violet Rose hefyd ddiagnosis Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig o'r diwedd ychydig wythnosau cyn iddi farw, er na chyrhaeddodd y llythyr a oedd yn cadarnhau ei diagnosis tan ar ôl ei marwolaeth.

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth:**

Y nodweddion gwarchodedig sy'n berthnasol i Violet Rose yw oedran, rhyw ac anabledd. Ar adeg ei marwolaeth, roedd Violet Rose yn ferch ysgol uwchradd 15 oed a oedd ag anhwylder niwroddatblygiadol heb ddiagnosis (tan ychydig wythnosau cyn iddi farw) a materion iechyd meddwl a oedd yn gyfystyr ag anabledd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yn ychwanegol at ei Hanhwylder ar y Sbectrwm Awtistig, ei gorbryder a hwyliau isel, roedd rhaid iddi hefyd ymdopi â'r holl heriau y mae pontio i addysg uwchradd a glaslencyndod yn eu dwyn i bobl ifanc.

O ganlyniad i'r teithi awtistig yr oedd yn ymgyflwyno â hwy roedd gweithwyr proffesiynol yn aml yn profi heriau wrth geisio ymgysylltu â hi. Gallai hyn fod wedi effeithio ar lwyddiant asiantaethau o ran cefnogi Violet Rose. Profodd yr anhawster hwn o ran siarad gyda dieithriaid yn rhwystr sylweddol i fynediad at wasanaethau priodol ar gyfer Violet Rose fel a ddangoswyd mewn nifer o apwyntiadau gyda CAMHS a rhai cysylltiadau gyda gwasanaethau addysg. Bu oedi sylweddol gyda'r atgyfeiriad ar gyfer asesiad niwroddatblygiadol oherwydd diffyg cydnabyddiaeth yn ei lleoliad addysg gynnar yn ôl pob golwg, er bod ei mam wedi codi pryderon. Mae'n hysbys bod awtistiaeth yn gallu bod yn anos i'w adnabod mewn merched a allai fod yn gallu celu neu guddio eu hawtistiaeth yn well na bechgyn mewn sefyllfaoedd cymdeithasol neu sy'n ymgyflwyno mewn ffyrdd gwahanol i fechgyn (Halsall, Clarke a Crane, 2021[3]). Mae astudiaeth ddiweddar yn Sweden wedi canfod bod y gymhareb rhwng bechgyn a merched lle mae diagnosis cyn glaslencyndod yn y cwestiwn mor uchel â 4:1 a bod y gymhareb hon yn lleihau wrth i blant dyfu fel bod y gymhareb, erbyn eu bod yn 20 oed, bron yn gyfartal (Fife et al, 2026[4]).

[3] "Camouflaging" by adolescent autistic girls who attend both mainstream and specialist resource classes: Perspectives of girls, their mothers and their educators

[4] Time trends in the male to female ratio for autism incidence: population based, prospectively collected, birth cohort study | The BMJ

| |
|---|
| Gallai'r rhain fod wedi bod yn ffactorau ym mhenderfyniad ysgol gynradd Violet Rose i beidio â'i hatgyfeirio ar gyfer asesiad. Unwaith y gwnaed penderfyniad i atgyfeirio Violet Rose ar gyfer asesiad niwroddatblygiadol, bu oedi pellach gyda hyn oherwydd yr arsylwadau yr oedd angen i'r ysgol honno eu gwneud cyn unrhyw asesiad meddygol. Unwaith yr oedd ar y rhestr aros fe gymerodd bymtheng mis arall i gwblhau asesiad. |
| **Ymwneud y teulu a'r prif unigolion:**<br><br>Fe ysgrifennodd yr Adolygwyr at fam a llystad Violet Rose ac at ei thad biolegol ar 3 achlysur, y tro cyntaf ar ôl cyfarfod cychwynnol y Panel. Fe amgaewyd Taflen Wybodaeth ADUS gyda'r llythyrau, ynghyd â manylion cyswllt. Yn dilyn ymateb gan fam Violet Rose, cyfarfu'r adolygwyr â mam Violet Rose a'i llystad (yr oedd yn ei alw'n Dad) gyda'i gilydd yn eu cartref ac yna â'i chwaer a oedd yn oedolyn a'i hen ewythr ar ochr ei mam ar wahân yn eu cartrefi. Nid ymatebodd tad biolegol Violet Rose i'r llythyrau, er y bu sawl ymgais i gysylltu ag ef yn ystod yr Adolygiad. Fe wnaeth gysylltu ar ddiwedd y broses i hysbysu'r Panel nad oedd yn dymuno cwrdd i drafod canlyniadau'r Adroddiad.<br><br>Manteisiodd mam Violet Rose ar y cyfle i gwrdd â'r Panel hefyd. Darparodd hyn y mecanwaith iddi allu pwysleisio pa mor bwysig ydoedd i'r teulu y dylai gweithwyr proffesiynol wrando'n well ar bryderon a godir gan rieni.<br><br>Cafodd y Panel drafodaeth rymus am gysylltu â ffrindiau a hanner brodyr Violet Rose, ond fe gytunwyd (ac roedd ei rhieni'n cefnogi'r penderfyniad hwn hefyd) y gallai hyn ychwanegu at ddioddefaint y bobl ifanc hyn pe baent yn cael eu cynnwys. Mae hanner brawd ifanc Violet Rose, yr oedd hi'n byw gydag ef, yn dal i'w chael hi'n anodd, fel y mae ei ffrind gorau hithau a oedd gyda hi gyda'r nos cyn iddi farw. |
| |
| **Hanes a/neu Wybodaeth Gyd-destunol sy'n ymwneud â'r Teulu:**<br><br>Y llinell amser y cytunwyd arni ar gyfer yr Adolygiad oedd 2 flynedd cyn marwolaeth Violet Rose, sef o fis Chwefror 2022 tan fis Chwefror 2024. Cafwyd adroddiadau cryno am ymwneud asiantaethau cyn yr amser hwn gan yr Heddlu, Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Addysg a'r Bwrdd Iechyd. Yn 2011, 2012 a 2013 ceir adroddiadau gan yr heddlu am achosion o aflonyddwch yn y cartref gyda'r plant yn bresennol. Roedd mam Violet Rose yn amlwg dan straen am gyfnod maith. Ym mis Mawrth a mis Ebrill 2014, cafwyd 3 adroddiad heddlu am Violet Rose yn cael ei chanfod ar ei phen ei hun yn y gymdogaeth. Trafodwyd y digwyddiadau hyn i gyd mewn trafodaeth strategaeth Amddiffyn Plant ym mis Mai 2014, lle cytunwyd fod y trothwy ar gyfer ymholiadau Adran 47 wedi cael ei gyrraedd a chanlyniad hynny oedd bod enwau Violet Rose a'i hanner brawd wedi cael eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant dan y categori Cam-drin ac Esgeuluso Emosiynol. Cafodd eu henwau eu tynnu oddi ar y gofrestr ym mis Chwefror 2015 ac fe gaewyd eu hachosion ym mis Gorffennaf 2015. Mae mam Violet Rose yn teimlo bod enwau'r plant wedi cael eu rhoi ar y Gofrestr oherwydd ymddygiadau Violet Rose y gwyddai hi eu bod yn deillio o awtistiaeth heb ddiagnosis, ond nid oedd unrhyw weithwyr proffesiynol yn cytuno â hi. Nododd y Gwasanaethau Plant gyfnod o ymwneud yn 2012 am 5 mis hefyd, a hynny yn dilyn atgyfeiriadau gan ysgol Violet Rose. Yn nadansoddiad y Gwasanaethau Plant nodwyd, er ei bod yn amlwg bod anawsterau gartref ar adegau, fod cyfnodau hir wedi bod hefyd lle na fu'r Gwasanaethau Plant yn ymwneud â'r teulu o gwbl. |

Disgrifiodd mam Violet Rose ymddygiadau yr oedd hi'n teimlo eu bod yn dynodi teithi awtistig o oedran ifanc iawn. Roedd anawsterau yn y lleoliad meithrin gydag ymddygiad Violet Rose ac fe'i gwaharddwyd sawl gwaith. Dywedodd hefyd ei bod wedi gofyn droeon i amryw weithwyr proffesiynol am asesiad awtistiaeth ar gyfer ei merch ond dywedodd na ddigwyddodd hyn. Fe wnaeth nodi bod ysgol gynradd Violet Rose yn gefnogol, a'i bod wedi ffynnu yno, ond nad oedd yr ysgol yn teimlo bod Violet Rose yn dangos arwyddion o Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig: o ganlyniad, ni wnaed atgyfeiriad ar gyfer asesiad.

Mae'r adroddiad cryno gan y gwasanaeth Addysg yn nodi bod y digwyddiad hunan-niweidio cyntaf yn ei chofnodion yn yr ysgol uwchradd ym mis Ionawr 2020, yn union cyn cyfnod y cyfyngiadau symud cyntaf o ganlyniad i Covid. Hon oedd blwyddyn gyntaf Violet Rose yn ei hysgol uwchradd. Fe barhaodd i fynychu'r ysgol yn ystod pandemig Covid, er y byddai ei phrofiad wedi bod yn wahanol iawn i addysg arferol yn yr ysgol. Ym mis Ionawr 2021, ceir cofnod gan yr ysgol o gyfarfod gyda mam Violet Rose ar ôl iddi fynd â hi at y meddyg teulu. Roedd Violet Rose wedi torri'r croen ar ei breichiau ac wedi dweud wrth ei mam ei bod hi wedi ceisio crogi ei hun. Roedd y meddyg teulu wedi gwneud atgyfeiriad brys at CAMHS (er nad oes gan Bractis y Meddyg Teulu na CAMHS unrhyw gofnod o'r atgyfeiriad hwn ac nad oes gan Bractis y Meddyg Teulu unrhyw gofnod o'r apwyntiad), ac ni fu unrhyw weithredu pellach gan yr ysgol. Roedd digwyddiad lle ymosodwyd ar Violet Rose ym mis Mai 2021 i ffwrdd o'i chartref. Fe wnaeth Violet Rose enwi'r cyflawnwr yn yr ysgol ac fe siaradwyd gydag ef. Nid ymddengys fod yr ysgol wedi siarad gyda mam Violet Rose ar yr achlysur hwn nac wedi hysbysu'r heddlu am y mater.

Ym mis Medi 2021, fe ddioddefodd Violet Rose ddigwyddiad arwyddocaol arall lle cafodd ei bwlio a lle ymosodwyd arni gan 2 ferch arall, yr oedd un ohonynt yn mynychu ei hysgol. Roedd y digwyddiad mewn parc lleol a fynychir yn aml gan grwpiau o bobl ifanc, ac roedd y ddau ddigwyddiad yn cynnwys cyd-ddisgyblion. Fe aed â Violet Rose i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys leol gan ei mam i gael triniaeth ar gyfer anafiadau i'w hwyneb ac fe wnaeth yr ysgol atgyfeiriad Diogelu at y Gwasanaethau Plant ar ôl trafod gyda Violet Rose a'i mam. Fe wnaeth mam Violet Rose hysbysu'r heddlu am y digwyddiad, ond ni fu erlyniad. Canfu cwyn gan fam Violet Rose ar ôl ei marwolaeth y bu methiannau amlwg i gyflawni'r ddyletswydd i ymchwilio'n effeithiol i'r mater hwn neu wneud yr ystyriaethau diogelu gofynnol ar gyfer y plant a oedd yn rhan ohono.

**Llinell Amser Asiantaethau:**

Ceir naw deg un o gofnodion ar linell amser gyfunol yr asiantaethau ar gyfer y cyfnod o 2 flynedd rhwng mis Chwefror 2022 a mis Chwefror 2024. Mae nifer o'r cofnodion yn ymwneud â hwyliau isel, ymddygiad hunan-niweidiol a meddyliau hunanladdol Violet Rose. Mae'r cofnod ar 08.02.2022 yn ymwneud ag athrawes ddosbarth Violet Rose yn sylwi arni'n crafu ei braich â chlip beiro wedi torri yn y dosbarth a hen farciau crafu ar ei braich. Fe gysylltwyd â'i mam ac fe wnaeth hithau hysbysu'r ysgol ei bod hi wedi bod â Violet Rose at y meddyg teulu a bod atgyfeiriad at CAMHS yn cael ei wneud. Mae'n werth nodi nad oes gan bractis y meddyg teulu na CAMHS unrhyw gofnod o wneud atgyfeiriad, er bod cofnod y meddyg teulu'n nodi'r angen am atgyfeiriad at CAMHS.

Ar 16 Mawrth 2022, fe gysylltodd mam Violet Rose â GIG 111 Cymru gan bod Violet Rose wedi bod yn dioddef gorbryder dwys a meddyliau hunanladdol parhaus. Adroddodd ei mam hefyd am episod o hunan-niwed y diwrnod blaenorol, ond ni wnâi Violet Rose gadarnhau'r hyn yr oedd wedi'i wneud. Fe geisiodd GIG 111 Cymru anfon ambiwlans at Violet Rose, ond oherwydd yr oedi cyn y gallai ambiwlans fynd ati, fe aeth ei mam â Violet Rose i'r ysbyty ei hunan. Fodd bynnag, ni wnaethant aros yn yr Adran Damweiniau

ac Achosion Brys i gael eu gweld ac, yn lle hynny, fe aethant adref ac yna fe geisiodd mam Violet Rose help gan y meddyg teulu y bore canlynol. Fe arweiniodd hyn at asesiad argyfwng gan CAMHS yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw: daeth i'r amlwg yn y llinell amser bod gan yr ysgol wybodaeth ychwanegol nad oedd ar gael i CAMHS. Roedd yr wybodaeth hon wedi dod trwy ffrind yn yr ysgol a ddarparodd ragor o fanylion gan Violet Rose bod yr episod yma o hunan-niwed yn ymwneud â chymryd tabledi a defnyddio cwlwm.

Fe drefnwyd apwyntiad cychwynnol gyda CAMHS a oedd yn ymwybodol o'r wybodaeth o'r noson flaenorol, ac yn dilyn yr apwyntiad hwn fe barhaodd y Tîm Argyfwng CAMHS i ymwneud tan fis Mehefin 2022. Roedd hyn yn anarferol gan y byddai'r Tîm Argyfwng fel arfer yn gweld person ifanc am gyfnod byr yn unig. Pe bai angen ymyriad pellach, byddai'r tîm yn gofyn am adolygiad meddygol ac yna byddai'r gwasanaeth CAMHS ehangach yn ymwneud os oedd angen. Fodd bynnag, nodwyd yn y Digwyddiad Dysgu fod y gwasanaeth CAMHS ehangach yn profi galw eithriadol ar yr adeg hon a bod y tîm yn teimlo ei bod yn bwysig cynnig lefel o gymorth i Violet Rose, nes iddi gael adolygiad meddygol. Fe roddodd y Tîm Argyfwng CAMHS y gorau i'w hymwneud hwy gan bod Violet Rose yn mynd i gael ei gweld gan Seiciatrydd Ymgynghorol CAMHS. Ar y cyfan, cafodd Violet Rose wyth apwyntiad mewn clinig gyda CAMHS – chwech gyda'r Tîm Argyfwng CAMHS ar 17.03.22, 24.03.22, 31.03.22, 19.04.22, 05.05.22 a 20.05.22 a dau gyda'r Seiciatrydd Ymgynghorol ar 20.06.22 a 06.07.22.

Mae cofnodion CAMHS yn nodi anawsterau parhaus gyda chyfathrebu rhwng ymarferwyr iechyd a Violet Rose. Ar 17.03.2022, fe wrthododd siarad gyda'r ymarferydd CAMHS ac roedd hi'n ymosodol gyda'i mam pan geisiodd hithau dynnu ei chlustffonau. Ar 24.03.22, fe wrthododd Violet Rose siarad yn ystod yr apwyntiad unwaith eto ond fe gytunodd i ryngweithio â'r nyrs CAMHS trwy negeseuon testun heb eu hanfon ar ei ffôn. Ar 25.03.2022, fe wnaeth CAMHS atgyfeirio Violet Rose at y Gwasanaethau Plant ar gyfer Cymorth Cynnar (gwasanaeth ataliol yw hwn a ddarperir gan ystod o asiantaethau statudol a'r trydydd sector i gefnogi teuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd). Nodwyd fod mam Violet Rose yn gefnogol ac yn gweithio'n dda gyda CAMHS i helpu Violet Rose. Sgwrs trwy negeseuon testun oedd dewis ddull cyfathrebu Violet Rose unwaith eto. Ar 19.04.2022, fe gytunodd Violet Rose i'w mam siarad ar ei rhan. Roedd yr apwyntiadau ar 05.05.2022 a 20.05.2022 yr un mor broblemus, er bod Violet Rose wedi siarad ychydig ar 20.05.2022, ond a hithau'n gwisgo masg wyneb y gwrthododd ei dynnu a chyda'i phen i lawr trwy gydol yr apwyntiad. Ar y naill a'r llall o'r apwyntiadau hyn, roedd mam Violet Rose gyda hi ac 1 ac yna 2 ŵr ifanc y dywedodd fod Violet Rose wedi ymddiried ynddynt (nid ymddengys fod ymarferwyr CAMHS wedi archwilio ymhellach pwy oedd yr unigolion hyn). Ar 05.05.2022, dywedodd mam Violet Rose y bu gwelliant ar y cyfan er bod hunan-niweidio arwynebol wedi parhau a'i bod wedi cael ei rhoi dan gyfyngiadau am ddefnyddio alcohol.

Er gwaethaf ymwneud CAMHS, mae cofnodion yr ysgol rhwng 01.04.2022 a 08.04.22 yn nodi bod hwyliau Violet Rose yn eithriadol o isel; roedd hi'n mynegi meddyliau hunanladdol, roedd hi wedi torri croen ei breichiau eto a phrin ei bod hi'n siarad. Ar 06.04.22, gofynnwyd i fam Violet Rose ei chasglu o'r ysgol: pan gyrhaeddodd, dywedodd ei bod hi'n teimlo y gallai'r ysgol gefnogi Violet Rose yn well ac nad oedd yr ysgol yn gwneud unrhyw beth am y bwlio y cawsant eu hysbysu amdano. Mae'n amlwg o gofnodion yr ysgol bod ei mam yn teimlo rhwystredigaeth ynghylch diffyg gweithredu'r ysgol ynglŷn â'r bwlio yn ei thyb hi: ymddengys na fu unrhyw ymchwilio pellach i hysbysiadau blaenorol gan ei mam a'r ymateb oedd siarad gyda ffrind Violet Rose. Nid

yw'n ymddangos eu bod wedi siarad gyda Violet Rose ac nid yw'n glir pam na chafodd hyn ei archwilio'n uniongyrchol gyda hi.

Ar 08.04.22, fe gysylltodd yr ysgol â'r Hyb Diogelu Amlasiantaeth (MASH) i geisio cyngor oherwydd hwyliau isel Violet Rose, ei hymddygiad hunan-niweidiol a'i hysbysiad bod ei dillad i gyd ganddi mewn bag a'i bod hi'n aros gyda ffrind ei chwaer hŷn. Nid oedd yr ysgol yn gallu cael gafael ar ei mam, ond yn ôl y sôn fe siaradodd staff MASH gyda hi yn ôl y sôn ac fe gofnodon nhw nad oedd unrhyw bryderon diogelu. Ni chofnodwyd pam oedd Violet Rose yn cario ei holl ddillad gyda hi na pham ei bod hi'n dewis aros yn nhŷ ffrind ei chwaer hŷn. Fodd bynnag, cofnododd yr ysgol fod Violet Rose wedi cael addewid y byddai'n cael £30 am lanhau tŷ'r ffrind. Nid oes cofnod o'r sgwrs rhwng staff MASH a mam Violet Rose ar linell amser y Gwasanaethau Plant nac unrhyw adborth uniongyrchol i'r ysgol.

Bu oedi (19 o ddiwrnodau gwaith) rhwng gwneud yr atgyfeiriad at y Gwasanaeth Cymorth Cynnar ar 31.03.22 a'i gael gan yr asiantaeth trydydd sector ar 25.04.22 am na chafodd ei brosesu'n brydlon gan y gwasanaeth Cymorth Cynnar. Wedyn gosodwyd yr atgyfeiriad ar restr aros a oedd yn chwe wythnos bryd hynny. Ni chysylltodd yr asiantaeth â mam Violet Rose tan 15.06.22: ar yr adeg honno, fe wrthododd gymorth rhianta a dywedodd fod ar Violet Rose angen cymorth emosiynol uniongyrchol gan weithiwr proffesiynol. Nid yw'n eglur o'r llinell amser a wnaeth y gwasanaeth Cymorth Cynnar ymchwilio i'r ymateb hwn ar unrhyw adeg na pha wasanaethau eraill allai fod wedi cael eu darparu. Fe gaewyd yr atgyfeiriad ac mae'r asiantaeth yn dweud bod yr atgyfeirydd wedi cael ei hysbysu ynghylch y canlyniad.

Bu farw tad-cu Violet Rose ym mis Ebrill 2022 ac fe dreuliodd hithau beth amser pan oedd yn ôl yn yr ysgol ar ôl gwyliau'r Pasg yn siarad yn rhydd mewn sesiynau llesiant. Roedd ei mam wedi awgrymu ei bod hi'n cysylltu â'r Samariaid yn y gwyliau fel y gallai fod â rhywun i siarad gyda hwy am ei theimladau.

Ar 28.04.22, gofynnodd yr ysgol am arsylwad niwroddatblygiadol gan y Tîm Cyfathrebu a Pherthnasoedd.

Roedd digwyddiad arwyddocaol ar 20.05.22 pan wnaeth Violet Rose a'i ffrind adael safle'r ysgol heb ganiatâd a'i throi hi am gaeau lleol. Fe wnaeth disgyblion o ysgol arall eu dychrynu ac ymosod arnynt. Mae'n aneglur pam na roddodd yr Ysgol wybod i'r heddlu am y digwyddiad hwn. Fe adawodd Violet Rose a'i ffrind safle'r ysgol heb ganiatâd eto ar 23.05.22 ac fe'u hebryngwyd yn ôl i'r ysgol. Ar 25.05.22, fe gyfaddefodd Violet Rose iddi fod wedi gadael yr ysgol er mwyn ysmygu ac fe ddangosodd anafiadau hunan-niweidio diweddar i'r aelod o staff na wnaeth eu datgelu wrth CAMHS nac wrth ei mam.

Cafodd Violet Rose ei gweld gan Arweinydd y Tîm Cyfathrebu a Pherthnasoedd ar gyfer cyfarfod cychwynnol ar 25.05.22 ac fe gytunwyd y byddai'r llwybr arsylwi niwroddatblygiadol yn mynd yn ei flaen. Roedd gwybodaeth berthnasol a nodwyd yn cynnwys sut yr oedd anawsterau cyfathrebu Violet Rose yn effeithio ar ei phrofiadau cymdeithasol. Hefyd, nodwyd fod ganddi ymddygiadau ailadroddus a'i bod yn anhyblyg wrth brofi anghyfiawnder cymdeithasol.

Digwyddodd ymosodiad pellach ar 27.05.22 pan oedd Violet Rose yn cerdded o dŷ ei ffrind i gartref ei hen ewythr. Dioddefodd Violet Rose anafiadau i'w hwyneb. Fe wnaeth yr ysgol gynghori ei mam i hysbysu'r heddlu am y digwyddiad, ond dywedodd ei mam nad

oedd unrhyw ddiben gan na ddygwyd unrhyw gyhuddiadau y tro diwethaf y digwyddodd hyn: mae'n aneglur pam na wnaeth yr ysgol hysbysu'r heddlu am hyn, o ystyried bod ei mam wedi gwrthod gwneud hynny.

Ar 02.06.22, rhoddodd ei mam wybod i'r heddlu bod Violet Rose ar goll, a hithau heb ddychwelyd adref ar yr amser y cytunwyd arno. Daethpwyd o hyd iddi ond nid oedd yn fodlon siarad gyda'r heddlu. Dywedodd ei mam ei bod hi'n meddwl y gallai fod dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol, ond nid yw'r heddlu'n nodi unrhyw feddwdod amlwg. Rhannodd yr heddlu wybodaeth am y digwyddiad hwn gyda'r Gwasanaethau Plant, a gysylltodd â mam Violet Rose. Gwrthododd hithau unrhyw gymorth am bod Violet Rose yn cael cymorth gan yr ysgol a CAMHS. Nid oedd unrhyw gofnod o unrhyw drafodaeth gan y Gwasanaethau Plant gyda'r ysgol na CAMHS na Violet Rose ei hun.

Ar 09.06.22, rhyddhawyd Violet Rose gan y Tìm Argyfwng CAMHS yn dilyn galwad i'w mam lle dywedodd fod Violet Rose yn dangos mwy o 'ymddygiad nodweddiadol o rywun yn ei harddegau nag ymddygiad rhywun â phroblemau iechyd meddwl'. Arhosodd Violet Rose ar y rhestr aros i weld y Seiciatrydd Ymgynghorol ar gyfer adolygiad meddygol.

Ar 14.06.22, fe wnaeth mam Violet Rose gais iddi gael trosglwyddo i ysgol uwchradd wahanol gan nodi pryderon ynghylch bwlio a'i bod yn teimlo'n anniogel yn ei hysgol bresennol yn ôl y sôn. Ar 15.06.22, dywedodd Violet Rose wrth ei Harweinydd Blwyddyn ei bod wedi ysmygu canabis ac wedi meddwi gyda'i ffrindiau. Dywedodd hefyd ei bod hi a'i mam yn dadlau, a bod arni eisiau byw gyda'i thad. Ar 15 Mehefin (yr un diwrnod ag y cafodd mam Violet Rose gyswllt o'r diwedd gan yr Asiantaeth yn y Trydydd Sector sy'n darparu gwasanaeth Cymorth Cynnar), fe gysylltodd y Gwasanaethau Plant â hi: gwrthododd yr asesiad Gofal a Chymorth a gynigiwyd.

Ar 16.06.22, dywedodd Violet Rose wrth aelod o staff yn yr ysgol ei bod hi wedi hunan-niweidio a bod arni eisiau gwneud amdani ei hun. Fe gysylltodd yr ysgol â'i mam i rannu'r wybodaeth hon a gofyn iddi gasglu Violet Rose. Gofynnodd yr ysgol i'w mam gysylltu â'r Tîm Argyfwng CAMHS. Fe geisiodd yr ysgol gyngor gan MASH ac fe gyflwynwyd atgyfeiriad, er nad yw'r atgyfeiriad wedi'i gofnodi ar gronoleg y Gwasanaethau Plant.

Fe gynhaliwyd apwyntiad gyda'r Seiciatrydd Ymgynghorol CAMHS ar 20.06.22. Roedd yr apwyntiad hwn yn weddol lwyddiannus gan bod Violet Rose wedi llwyddo i siarad yn weddol rugl gyda'r meddyg, a drefnodd apwyntiad pellach ar 06.07.22. Fodd bynnag, yn yr apwyntiad nesaf, roedd Violet Rose yn llai parod i gyfathrebu a dywedodd nad oedd arni eisiau gweld y meddyg eto. Wedyn fe'i rhyddhawyd gyda chynllun i barhau i gael mynediad at gymorth 1:1 yn yr ysgol a chan y gwasanaeth 'Cymorth Cynnar' ac ystyried a fyddai'n gweld cwnselydd ysgol. Mae'r seiciatrydd yn cydnabod y gallai Violet Rose ail-ymgyflwyno mewn argyfwng gan ei bod yn cael cymaint o anhawster rheoli emosiynau gorlethol a chymhleth. Mae'n aneglur pa gymorth neu strategaethau os o gwbl a gynigiwyd i Violet Rose a'r teulu ehangach.

Fe ddirywiodd presenoldeb Violet Rose yn yr ysgol yn ystod wythnosau olaf tymor yr haf ac ym mis Medi 2022, dechreuodd y flwyddyn ysgol newydd yn ei hysgol newydd. Ar ei hail ddiwrnod, fe ymgyflwynodd Violet Rose yn Hyb Llesiant yr ysgol gan ei bod wedi dechrau teimlo ei bod wedi ei gorlethu yn y dosbarth. Roedd yn ymddangos fel pe bai'r ysgol newydd heb gael unrhyw wybodaeth gan ei hysgol flaenorol am ei hanghenion. Unwaith y daeth hi'n amlwg bod ar Violet Rose angen cymorth ychwanegol fe gysyllton nhw â'i hysgol flaenorol. Mae'r ysgol yn nodi trwy fis Medi, Hydref, Tachwedd a Rhagfyr

| |
|---|
| ddigwyddiadau lle'r oedd Violet Rose mewn trallod a lle defnyddiodd gymorth llesiant 'Gweithiwr Arweiniol'.<br><br>Fe wnaed atgyfeiriad ar gyfer asesiad diagnostig niwroddatblygiadol o'r diwedd ar 04.10.2022.<br><br>Ym mis Ionawr 2023, dywedodd Violet Rose wrth staff yr ysgol ei bod hi wedi ysmygu canabis eto ac roedd hi'n eithriadol o dawedog. Fe'i hatgyfeiriwyd eto at MASH oherwydd pryderon yr ysgol ynghylch ei hiechyd meddwl. Gwrthododd Violet Rose a'i mam gymorth gan y Gwasanaethau Plant eto. Ar 13.02.23, fe baratôdd yr ysgol 'Gynllun Cymorth Bugeiliol' i Violet Rose, yn dilyn cyfarfod gyda hi a'i mam. Hwn oedd y tro cyntaf i'r ysgol newydd gael gwybod am ymgeisiau Violet Rose i gyflawni hunanladdiad a'r hanes o fwlio. Rhannodd ei mam hefyd ei bod yn ofni y gallai Violet Rose wneud amdani ei hun, yn union fel yr oedd ei chefnder wedi'i wneud rai blynyddoedd yn gynharach. Nid oes unrhyw gyfeiriad at unrhyw drafodaeth bellach am effaith y golled hon ar Violet Rose.<br><br>Roedd digwyddiad arwyddocaol arall ar 03.03.23 lle galwyd yr heddlu i gartref hen ewythr Violet Rose am bod person ifanc, a oedd â'i ffrindiau gyda hi, yn curo ar ei ddrws yn galw am Violet Rose. Roeddent wedi teithio o'u cymuned er mwyn aflonyddu ar Violet Rose a'i dychrynu: cafodd hefyd gyfres o negeseuon testun difrïol ganddynt. Canlyniad yr hysbysiad i'r heddlu oedd y byddai 'geiriau o gyngor' yn cael eu rhoi i'r cyflawnwyr.<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod Adolygu yn yr ysgol ar 24.04.23 gyda mam Violet Rose a oedd yn hapus gyda'r cynnydd yr oedd hi'n ei wneud yn yr ysgol hon. Fodd bynnag, ym mis Mai, mae'r ysgol yn nodi bod Violet Rose wedi parhau i hunan-niweidio ac y siaradwyd gyda'i mam am hyn. Yn dilyn hyn ceir cyfnod lle na chofnodwyd unrhyw ddigwyddiadau ar y llinell amser, ond ar 01.12.23, fe rannodd Violet Rose gydag aelod o staff yr ysgol ei bod wedi cymryd ati am nad oedd ar ei thad eisiau ei gweld. Fe gysylltodd yr ysgol â'i mam eto, i rannu'r wybodaeth hon. Ar 11.01.2024, cafodd Violet Rose ei hasesiad gyda'r tîm niwroddatblygiadol. Canlyniad yr apwyntiad hwn oedd y byddai Violet Rose yn bodloni'r meini prawf ar gyfer diagnosis anhwylder ar y sbectrwm awtistig. Gwaetha'r modd, ni chafodd lythyr yn cadarnhau hyn tan ar ôl ei marwolaeth.<br><br>Cafodd dau ddigwyddiad pellach eu cofnodi gan yr ysgol ar 25.01.24 a 02.02.24, roedd hwyliau Violet Rose yn isel yn yr ysgol ac fe roddodd un o'i chyd-ddisgyblion wybod i staff am hyn. Gwrthododd Violet Rose gymorth a gwrthododd atgyfeiriad at y cwnselydd ysgol. Ar 02.02.24, dywedodd Violet Rose wrth staff fod rhywun wedi ymosod ar ei brawd ar ei ffordd adref o'r ysgol a, phan ofynnodd disgyblion eraill i Violet Rose beth oedd wedi digwydd, eu bod wedi dweud wrthi am 'hollti croen ei harddyrnau'. Pan gyfwelwyd â'r disgyblion eraill, gan gynnwys tystion a enwyd gan Violet Rose, fe wnaethant i gyd wadu bod hyn wedi cael ei ddweud wrthi. Fe gysylltwyd â'i mam ac fe wnaeth hithau ei chasglu o'r ysgol amser cinio.<br><br>Ddiwrnodau lawer yn ddiweddarach, canfuwyd Violet Rose yn farw yn ei hystafell wely gan ei mam a'i llystad. Gadawodd nodyn hunanladdiad a oedd wedi'i ddyddio fis yn gynharach. |
| **Gwersi ar gyfer Ymarfer a Sefydliadau:**<br><br>Daw'r gwersi ar gyfer ymarfer a sefydliadau a adnabuwyd o'r elfennau allweddol canlynol o'r Adolygiad: |

- Y llinell amser gyfunol amlasiantaeth
- Trafodaethau yng nghyfarfodydd y Panel
- Cyfarfodydd gydag aelodau'r Teulu
- Y Digwyddiad Dysgu a gynhaliwyd ar gyfer gweithwyr proffesiynol.
- Ymgyngoriadau â gweithwyr proffesiynol unigol
- Adolygiad o Lenyddiaeth.
- 2 Adolygiad Ymarfer Plant blaenorol perthnasol.

**1. Diagnosis o Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig**

Mae'n amlwg o adolygu'r llinellau amser ac o drafodaethau gyda theulu Violet Rose bod y broses ar gyfer cael asesiad awtistiaeth yn gryn her. Ceir pryderon cofnodedig a godwyd gan ei mam mor gynnar â 2016, er ei bod hi'n dweud iddi fod wedi nodi ei bod yn credu bod Violet Rose yn awtistig yn llawer cynharach yn ei bywyd. Mae strategaethau Awtistiaeth Llywodraeth Cymru[5] wedi pwysleisio pwysigrwydd gwrando ar rieni ac eto, yn achos Violet Rose, ni weithredwyd ar bryderon ei mam. Fe newidiodd y broses ar gyfer atgyfeirio i gael asesiad diagnostig yn 2017 gan olygu mai dim ond ysgolion oedd yn gallu gwneud atgyfeiriadau (yn dilyn cyfnod o asesu arsylwadol) at y Gwasanaeth Niwroddatblygiadol, a oedd yn gweithredu ar wahân i CAMHS. Fe greodd y newid hwn rwystr pellach i gael atgyfeiriad ar gyfer asesiad.

Er nad yw diagnosis wastad yn golygu bod cymorth dilynol yn ofynnol, gellir cynnig hyn yn y rhanbarth os oes angen. Heb os, mae diagnosis wedi'i gadarnhau'n effeithio'n gadarnhaol ar lefel y cymorth y gall teuluoedd gael mynediad ato ac fe all ysgol deimlo'i bod yn cael cymorth gwell i wneud addasiadau rhesymol penodol i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu gwireddu eu llawn botensial hefyd. Yn yr un ffordd, gall diagnosis ddarparu'r porth ar gyfer addysg a chymorth teuluol. Byddai'n ymddangos o'r wybodaeth sydd ar gael, er bod hynny wedi cael ei godi gan fam Violet a bod pediatrydd ymgynghorol wedi awgrymu'r angen am atgyfeiriad diagnostig yn 2016 hefyd, na wnaed atgyfeiriad tra'r oedd Violet Rose yn yr ysgol gynradd. Yn wir, ni wnaed atgyfeiriad tan fis Hydref 2022, er bod y cais am arsylwad niwroddatblygiadol wedi cael ei gyflwyno gan yr ysgol i'r Tîm Cyfathrebu a Pherthnasoedd ym mis Ebrill 2022. Roedd Violet Rose yn cael ei gweld gan CAMHS rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2022 ac fe roddodd y ddwy nyrs CAMHS a welodd a'r Seiciatrydd Ymgynghorol wybod i'r Adolygwyr eu bod hwy'n meddwl bod ganddi Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig ond, ar yr adeg honno, nid oedd y gweithwyr proffesiynol hyn yn gallu atgyfeirio at y Gwasanaeth Niwroddatblygiadol eu hunain. Yn ystod y cyfnod hwn, dim ond ysgolion oedd yn gallu atgyfeirio disgyblion i gael eu hasesu gan y gwasanaeth niwroddatblygiadol.

Ceir nifer o resymau pam y methir â chydnabod bod angen asesiad ar gyfer Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig ar blant: mae hyn yn cynnwys tystiolaeth i awgrymu bod merched yn aml yn peidio â chael eu hadnabod. Y rheswm dros hyn yw bod awtistiaeth mewn merched yn gallu edrych yn wahanol iawn i'r stereoteip o ran ymddygiad awtistig. Gall merched ymgyflwyno â symptomau o fath 'tawelach' sy'n aml yn gallu cael eu camddehongli, megis ymddygiad â ffocws pendant fel dilyn hoff fandiau mewn modd obsesiynol. Mae merched hefyd yn ymgyflwyno'n llai aml ag anawsterau iaith a lleferydd ac yn aml yn dysgu ymddygiadau sy'n dderbyniol yn gymdeithasol yn haws na bechgyn – mae'r ffenomen 'celu' neu 'guddio' hon bellach yn cael ei chydnabod yn eang.

[5] diweddariad-or-cynllun-gweithredu-strategol-ar-gyfer-anhwylderaur-sbectrwm-awtistig.pdf

Mae'r llinell amser yn cwmpasu'r cyfnodau yn syth ar ôl pandemig COVID a'r rheiny'n gyfnodau pan fyddai'r holl blant a phobl ifanc wedi cael eu cyflwyno yn ôl i mewn i addysg yn dilyn cyfnod sylweddol â llai o gyswllt. Gallai hyn fod wedi bod yn arwyddocaol lle mae cydnabyddiaeth yr ysgol uwchradd i deithi awtistig Violet Rose yn y cwestiwn, gan nad oedd ysgolion yn gweithredu fel arfer yn ystod y pandemig, ond nid yw hyn yn egluro'r diffyg atgyfeiriad pan oedd hi yn yr ysgol gynradd.

**Arfer Da**

Er gwaethaf y diffyg diagnosis, fe sicrhaodd y ddwy ysgol fod gan Violet Rose gymorth priodol i'w chynorthwyo i ymdopi ag amgylchedd yr ysgol. Roedd hyn yn cynnwys 'amser allan' yn yr Hyb Lles, mannau tawel a defnyddio clustffonau. Roeddent yn ymatebol i anghenion Violet Rose ac mae'n amlwg ei bod hi wedi ymgartrefu'n fwy ar ôl symud i'w hail ysgol ym Mlwyddyn 10.

Mae'r Adolygwyr wedi cael eu sicrhau hefyd bod y weithdrefn ar gyfer atgyfeirio wedi newid ers marwolaeth Violet Rose, fel bod pediatryddion a seiciatryddion CAMHS hefyd yn gallu atgyfeirio at y gwasanaeth niwroddatblygiadol ar gyfer asesiad diagnostig. Yng Nghwm Taf Morgannwg, mae clinigau CAMHS/Gwasanaethau Niwroddatblygiadol ar y Cyd wedi cael eu sefydlu hefyd i gyflymu asesiad ar gyfer plant sy'n ei chael hi'n anodd gydag anghenion iechyd meddwl gwael a chyflyrau niwroddatblygiadol tybiedig. Nod y clinigau hyn yw hybu cydweithio a gofal di-dor.

## 2. Hunan-Niwed ac Ymgeisiau i Gyflawni Hunan-laddiad

Bellach ceir sylfaen dystiolaeth gref sy'n cysylltu risg uwch o hunan-niwed hunanladdol a hunan-niwed nad yw'n hunanladdol â phobl ifanc sy'n niwrowahanol.[6] Gall hunan-niwed fod yn strategaeth ymdopi ond gall hefyd gynnwys bwriad i gyflawni hunanladdiad: mae angen codi ymwybyddiaeth ehangach o'r risg uwch ar gyfer pobl ifanc awtistig a'r gwahanol fathau o hunan-niwed ymhlith gweithwyr proffesiynol o bob asiantaeth. Mae angen i offer asesu risg a chynlluniau rheoli risg a ddefnyddir i gefnogi pobl ifanc ystyried hyn yn enwedig lle mae pobl ifanc yn ymgyflwyno ag ymddygiadau hunan-niweidiol.

Lle mae pobl ifanc wedi dangos ymddygiadau hunan-niweidiol risg uchel gan gynnwys defnyddio clymau yn flaenorol, ynghyd â diagnosis posibl o anhwylder ar y sbectrwm awtistig, caiff y risg o gwblhau hunanladdiad ei ddwysau. Mae ymchwil yn awgrymu bod y bobl ifanc hyn yn wynebu mwy o risg o barhau â'r math yma o ymddygiad. Mae angen i weithwyr proffesiynol sy'n ymdrin â'r pryder hwn fod yn ymwybodol o'r risgiau mwy dwys.

Fe wnaed atgyfeiriad at y tîm argyfwng CAMHS gan y meddyg teulu yn dilyn ymgais Violet Rose i gyflawni hunanladdiad â chwlwm ym mis Mawrth 2022. Roedd y tîm argyfwng CAMHS wedi cadw Violet Rose yn agored i'w gwasanaethau am yn hwy nag y byddent fel arfer i roi cymorth i Violet Rose tra'r oedd hi'n aros am yr adolygiad meddygol rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mehefin 2022. Cafodd yr Adolygwyr eu hysbysu'n ddiweddarach gan y Seiciatrydd Ymgynghorol bod CAMHS dan bwysau sylweddol ar y pryd oherwydd mwy o alw ar ôl Covid a bod amseroedd aros i weld seiciatrydd

[6] Updated Systematic Review of Suicide in Autism: 2018–2024 | Current Developmental Disorders Reports

ymgynghorol yn hwy. Dywedwyd wrth yr Adolygwyr, oherwydd ailalinio gwasanaethau, fod pobl ifanc y mae arnynt angen adolygiad meddygol o fewn pythefnos yn cael eu gweld o fewn y raddfa amser honno erbyn hyn. Ceir darpariaeth ychwanegol ar ffurf Tîm Cymorth Cymunedol, a fyddai wedi gallu gweld Violet Rose gartref. Er bod Violet Rose wedi cael ei gweld yn y clinig wyneb yn wyneb, cafodd gymorth yn amgylchedd yr ysgol hefyd. Mae'r adolygwyr yn teimlo y gallai'r ddarpariaeth ymweliadau â'r cartref sy'n bodoli yn awr fod wedi bod o fudd i Violet Rose.

Fe gwblhawyd asesiad risg WARRN (Rhwydwaith Ymchwil Risg Gymhwysol Cymru) gan y Tîm Argyfwng CAMHS, ond roedd hi'n amlwg o'r Digwyddiad Dysgu na chafodd hwn ei rannu o fewn na rhwng asiantaethau. Yn dilyn yr adolygiad meddygol ym mis Mehefin 2022, fe gynigiwyd apwyntiad pellach gan y seiciatrydd ymgynghorol a arweiniodd at ryddhau Violet Rose o CAMHS gyda chynllun y dylai ymgysylltu â'r gwasanaeth cwnsela ysgol, parhau â chymorth 1:1 yn yr ysgol a chael 'Cymorth Cynnar' (mewn gwirionedd, erbyn i Violet Rose gael ei hail apwyntiad gyda'r seiciatrydd, roedd ei mam wedi gwrthod Cymorth Cynnar pan gysylltwyd â hi).

Fe bennodd ei hasesiad seiciatrig nad oedd gan Violet Rose afiechyd meddwl y gellid ei ddiagnosio ond bod ei symptomau gorbryder a hwyliau isel yn gyson â 'dadreoleiddio emosiynol a chymhlethdod awtistig heb ei ddiagnosio'. Ymddengys fod Violet Rose wedi parhau i ddefnyddio strategaethau ymdopi gan gynnwys ysmygu canabis, yfed alcohol a hunan-niweidio a'i bod wedi parhau i gael trafferth gyda hwyliau isel ond, yn y bôn, o safbwynt iechyd, ni chafodd Violet Rose unrhyw ymyrraeth arbenigol bellach ac fe'i cyfeiriwyd yn ôl at wasanaethau cyffredinol i reoli unrhyw risg neu argyfyngau newydd.

**Arfer Da**
Dangosodd y Tîm Argyfwng CAMHS arfer hyblyg o ran ceisio cefnogi unrhyw fylchau mewn gofal ac fe aethant y tu hwnt i'w cylch gwaith i barhau i gefnogi Violet Rose nes iddi gael ei hadolygiad meddygol.

Mae'r ddogfen SBAR (Sefyllfa, Cefndir, Asesiad, Argymhelliad (Situation, Background, Assessment, Recommendation)) a ddefnyddir gan y Tîm Argyfwng CAMHS wedi cael ei diweddaru ers marwolaeth Violet Rose i gynnwys niwrowahaniaeth fel ffactor risg penodol pan fo pobl ifanc yn ymgyflwyno ag ymddygiad hunan-niweidiol.

Fe wnaeth ysgolion Violet Rose ill dwy sicrhau ei bod yn cael cymorth gyda'i hiechyd meddwl ac fe ddangoson nhw ddyfalbarhad o ran sicrhau cymorth gan ddefnyddio'r Hyb Llesiant. Byddai Violet Rose yn aml yn treulio amser yno gyda staff yr oedd ganddi berthynas dda â hwy. Bu'r ysgol yn cyfathrebu'n dda gyda mam Violet Rose er ei bod hi'n teimlo bod ar yr ysgol eisiau iddi dynnu Violet Rose allan pan fyddai ei hwyliau'n isel yn hytrach na rhoi cymorth iddi aros yn yr ysgol. Pan symudodd Violet Rose i'w hail ysgol, unwaith yr oedd yr ysgol honno'n deall ei hanawsterau, roedd ganddi Gynllun Cymorth Bugeiliol a oedd yn cynnwys penodi Gweithiwr Arweiniol.

**3. Cyfathrebu**
Bu nifer o asiantaethau'n ymwneud â Violet Rose yn ystod cyfnod y llinell amser, ond ychydig o gyfathrebu oedd rhyngddynt os o gwbl. Pan wnaeth Violet Rose symud ysgol ym mis Medi 2022, ni rannwyd rhyw lawer o wybodaeth am anghenion Violet Rose gyda'r

ysgol newydd gan yr ysgol gyntaf nac Uned Derbyn Disgyblion Adran Addysg yr Awdurdod Lleol.

Ni chafodd y meddyg teulu'r llythyr am yr apwyntiad cyntaf na'r llythyr am apwyntiad cyntaf y Seiciatrydd Ymgynghorol na'r llythyr rhyddhau gan CAMHS ac ni fyddai wedi bod yn ymwybodol o'r cynllun i ryddhau o CAMHS. Nid oedd proses yn ei lle ar y pryd i unrhyw asesiadau risg a gwblhawyd gan CAMHS gael eu rhannu gyda gofal sylfaenol na chydag ysgolion. Roedd episodau dadreoleiddio Violet Rose yn yr ysgol yn cael eu rheoli gan yr ysgol. Gallai'r oruchwyliaeth arbenigol hon fod wedi goleuo ac ategu'r broses o lunio'r cynllun bugeiliol ar gyfer ei hysgol.

Ni wnaeth yr ysgol gynnal cyswllt â CAMHS pan oedd digwyddiadau gyda Violet Rose er ei bod yn gwybod bod CAMHS yn ymwneud yn weithredol â hi. Fe wnaed atgyfeiriadau at y gwasanaeth Cymorth Cynnar gan CAMHS a'r ysgol, ond nid oedd y naill na'r llall yn ymwybodol bod mam Violet Rose wedi gwrthod unrhyw wasanaeth pan gafodd ei gynnig.

Mae Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd gan yr Heddlu (dogfennau rhannu gwybodaeth) wastad yn cael eu rhannu gyda'r Gwasanaethau Plant; fodd bynnag, nid ydynt yn cael eu rhannu fel arfer gyda'r gwasanaeth Addysg na CAMHS (ar gyfer plant dros 5) ac nid yw'r Gwasanaethau Plant yn eu rhannu gydag unrhyw asiantaethau eraill gan nad eu gwybodaeth hwy ydyw i'w rhannu.

Cafwyd hefyd un digwyddiad yr hysbyswyd yn ei gylch ym mis Mawrth a hynny yng nghartref aelod o'r teulu. Fe arweiniodd hyn at ddigwyddiad heddlu ac mae wedi'i nodi fel digwyddiad bwlio o ran ei natur ac roedd yn cynnwys negeseuon testun annymunol. Nid yw'r digwyddiad hwn i'w weld fel pe bai wedi cael ei rannu gyda unrhyw asiantaethau.

Mae'n amlwg o'r wybodaeth sydd ar gael bod mam Violet Rose yn aml yn cael ei defnyddio fel cyfrwng i drosglwyddo gwybodaeth i wahanol asiantaethau, megis rhwng CAMHS a'r ysgol a rhwng yr heddlu a'r ysgol. Er bod mam Violet Rose yn gwneud hyn yn ddiwyd, roedd y potensial ar gyfer camwybodaeth yn amlwg ac roedd y cyfle ar gyfer gweithio ar y cyd i gefnogi Violet Rose yn cael ei golli. Er bod cynnwys y teulu'n hollbwysig i gynllunio gofal, ni ddylent orfod cyflawni'r rôl hon. Fe eglurodd gweithwyr proffesiynol a oedd yn bresennol yn y Digwyddiad Dysgu wrth yr Adolygwyr fod rhwystrau systemig yn bodoli sy'n gwneud cyfathrebu rhwng (ac, weithiau, o fewn) asiantaethau yn anodd a bod angen prosesau gwell rhwng asiantaethau i ategu cyfathrebu a chydweithio effeithiol.

**Arfer Da**
Bu ail ysgol Violet Rose yn gweithio'n galed i gasglu gwybodaeth gefndir am Violet Rose gan ei hysgol gyntaf ac fe gysylltodd â'i mam i gael rhagor o hanes ganddi. Pan na chafwyd gwybodaeth gan yr ysgol gyntaf ar unwaith, fe drefnodd un o aelodau o staff yr ysgol newydd i gwrdd â'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) o'r ysgol flaenorol er mwyn cael yr wybodaeth yr oedd ar yr ysgol newydd ei hangen er mwyn cefnogi Violet Rose yn effeithiol.

Dywedwyd wrth yr Adolygwyr yn y Digwyddiad Dysgu fod Llinell Ymgynghori ar gyfer gweithwyr proffesiynol wedi cael ei sefydlu a all gynnig cymorth i unrhyw weithiwr proffesiynol cyn atgyfeiriad at y Gwasanaethau Plant.

4. **Atgyfeiriadau**

Fe wnaed nifer o atgyfeiriadau at y gwasanaeth Cymorth Cynnar ac atgyfeiriad at MASH mewn perthynas â hwyliau isel Violet Rose, ei syniadau hunanladdol a'i defnydd o sylweddau. Mae'n amlwg o wybodaeth sydd ar gael, lle cynigiwyd cymorth gan y Gwasanaethau Plant, nad oedd mam Violet Rose yn gweld gwerth mewn cymorth o'r fath. Ymddengys y bu diffyg triongli risg lle'r oedd pryderon cynyddol. Nid yw'n glir o'r wybodaeth sydd ar gael a oedd gweithwyr proffesiynol eraill a fu'n ymwneud â Violet Rose yn cael cyswllt gan y Gwasanaethau Plant, ynteu a oeddent yn syml yn ffonio ei mam. Nid ymddengys fod unrhyw ymgais wedi cael ei wneud i glywed llais Violet Rose. Nid oes unrhyw dystiolaeth ychwaith sy'n dangos bod yr atgyfeirydd, boed yr ysgol neu CAMHS, wedi cael cyswllt i'w hysbysu bod y gwasanaeth wedi cael ei wrthod gan fam Violet Rose na bod y naill wasanaeth neu'r llall wedi gwneud ymholiadau dilynol ar ôl eu hatgyfeiriadau i ganfod a oedd y cynnig o help wedi cael ei dderbyn.

Cafwyd un achlysur ym mis Ionawr 2022 pan oedd mam Violet Rose yn credu bod y meddyg teulu wedi atgyfeirio Violet Rose at CAMHS, ond ni wnaeth CAMHS gofnodi eu bod wedi cael atgyfeiriad ac nid oes unrhyw dystiolaeth o'r practis bod atgyfeiriad wedi cael ei wneud.
Pan wnaed atgyfeiriad ar gyfer asesiad niwroddatblygiadol o'r diwedd ym mis Hydref 2022, ni welwyd Violet Rose tan fis Ionawr 2024, sy'n amser aros o bymtheng mis. Rhoddwyd Violet Rose ar y llwybr niwroddatblygiadol ym mis Ebrill 2022 ac eto fe gymerodd 5 mis arall i'r atgyfeiriad ar gyfer asesiad diagnostig gael ei wneud. Bu'n rhaid iddi aros bron i dri mis rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2022 i weld Seiciatrydd Ymgynghorol CAMHS ar ôl i'r Tîm Argyfwng CAMHS wneud atgyfeiriad brys ar gyfer adolygiad seiciatrig. Yn yr un modd, pan wnaeth y Tîm Argyfwng CAMHS atgyfeiriad ar gyfer Cymorth Cynnar ar ddiwedd mis Mawrth 2022, ni chafodd mam Violet Rose gyswllt gan yr asiantaeth yn y Trydydd Sector sy'n darparu Cymorth Cynnar tan fis Mehefin 2022 ac ar yr adeg honno fe wrthododd unrhyw gymorth.

### 5. Bwlio

Fe brofodd Violet Rose fwlio o bryd i'w gilydd yn ystod ei blynyddoedd yn yr ysgol uwchradd. Ymddengys fod peth o'r bwlio hwn wedi digwydd y tu allan i amgylchedd yr ysgol ond ei fod yn cynnwys disgyblion o'i hysgol hi a disgyblion o ysgolion eraill. Cafodd rhai digwyddiadau eu gwneud yn hysbys gan fam Violet Rose i'r ysgol a'r heddlu ac ni chafodd rhai eu gwneud yn hysbys iddynt. Fodd bynnag, dywedodd mam Violet Rose wrth yr Adolygwyr ei bod hi wedi hysbysu ei hysgol gyntaf am fwlio ar nifer o achlysuron ac eto ymddengys nad oedd gan yr ysgol unrhyw gofnodion o hysbysiadau am fwlio gan ei mam rhwng mis Chwefror 2022 a mis Gorffennaf 2023. Yn ei chais i drosglwyddo Violet Rose i ysgol arall, mae ei mam yn nodi bod Violet Rose 'yn cael ei bwlio ar hyn o bryd... ac yn dioddef gyda'i hiechyd meddwl o ganlyniad i ddioddef ymosodiadau a bwlio, nid yw fy mhlentyn yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol'.

Ceir anghysondeb rhwng cyfrif mam Violet Rose a chofnodion yr ysgol nad yw wedi cael ei ddatrys. Mae cofnodion yr ysgol yn cynnwys 3 digwyddiad sydd wedi'u cofnodi o fewn y llinell amser:

- 06.04.22: Cofnododd yr ysgol fod mam Violet Rose wedi ei chasglu o'r ysgol ar ôl i'r ysgol gysylltu â hi i gasglu Violet Rose am ei bod yn teimlo'n 'isel iawn a bod arni eisiau gwneud amdani ei hun eto'. Cofnodwyd fod mam Violet Rose wedi dweud bod 'nifer o athrawon wedi cael gwybod' bod Violet Rose yn cael ei bwlio a bod 'dim byd wedi cael ei wneud am y peth'. Ar ôl i Violet Rose adael gyda'i mam, fe siaradodd staff gyda'i ffrind, a ddywedodd nad oedd wedi sôn ei bod yn cael ei

bwlio. Nid oes cofnod bod staff wedi siarad gyda Violet Rose pan ddychwelodd i'r ysgol na bod unrhyw ymholiadau pellach wedi cael eu gwneud.

- 20.05.22: Dychwelodd Violet Rose a'i ffrind i'r ysgol a hwythau wedi gadael y safle heb ganiatâd ac fe ddwedon nhw fod disgyblion o ysgol arall wedi dod atynt, gorfodi fêps i mewn i'w cegau a rhedeg ar eu holau. Cafodd y digwyddiad ei logio ar gofnod Diogelu'r ysgol. Nid oes cofnod ar yr achlysur hwn bod yr ysgol wedi cysylltu â mam Violet Rose na bod y digwyddiad wedi cael ei wneud yn hysbys i'r heddlu.
- 27.05.22: Dywedodd Violet Rose wrth staff yr ysgol ei bod wedi cael 'crasfa' gan 3 bachgen wrth gerdded o dŷ ei ffrind i gartref ei hewythr y noson cynt. Roedd gan Violet Rose glais amlwg dan ei llygad. Fe gysylltodd yr ysgol â'i mam a'i chynghori i hysbysu'r heddlu am y digwyddiad ond ni wnaethant hwy hysbysu'r heddlu am y digwyddiad eu hunain, hyd yn oed pan ddywedodd mam Violet Rose nad oedd unrhyw ddiben am na chafodd unrhyw un ei gyhuddo pan hysbysodd hi'r heddlu am ddigwyddiad yn 2021.

Mae gan y ddwy ysgol bolisïau gwrth-fwlio sy'n cyd-fynd â Chanllawiau Statudol Llywodraeth Cymru.[7] Fodd bynnag, yn ei hysgol gyntaf, nid oes cofnod o unrhyw ddigwyddiadau yr oedd yr ysgol o'r farn eu bod yn gyfystyr â bwlio gan bod yr ysgol yn teimlo nad oedd unrhyw dystiolaeth o hyn. Nid yw'r naill bolisi na'r llall yn cynnwys digwyddiadau y tu allan i'r ysgol nac unrhyw ddarpariaethau ar gyfer cyfathrebu rhwng ysgolion lle mae disgyblion o ysgolion eraill wedi bod yn rhan o ddigwyddiadau. Nid oes unrhyw sôn yn y naill ddogfen na'r llall pryd y mae'n briodol hysbysu'r heddlu nac, o leiaf, ceisio cyngor gan Swyddog Cyswllt yr Heddlu sy'n gwasanaethu'r ysgol (Swyddogion Ymgysylltu â Phobl Ifanc bellach). Mae dogfen 'Protocol Rhawdau Ysgolion' ddiweddar yr heddlu (Ebrill 2025) o gymorth i gynorthwyo ysgolion a'r heddlu i ymdrin â digwyddiadau sy'n ymwneud â disgyblion a allai fod yn rhai troseddol.

Ar 02.06.22, hysbyswyd yr heddlu fod Violet Rose ar goll. Daeth ei mam o hyd iddi ac fe aeth â hi adref. Fe ymwelodd yr heddlu â hi gartref yn unol â'u gweithdrefn weithredu hwy, ond nid oedd Violet Rose yn fodlon siarad gyda hwy. Roedd mam Violet Rose wedi crybwyll wrth yr heddlu pan roddodd wybod ei bod ar goll bod Violet Rose wedi dioddef ymosodiad yn ystod yr wythnos flaenorol, ond ni wnaeth y swyddogion a ymwelodd â'r cartref geisio rhagor o fanylion am y digwyddiad hwn. Yn wir, efallai nad oedd swyddogion yn ymwybodol o'r wybodaeth a rannwyd gyda Chanolfan Gwasanaethau'r Cyhoedd pan hysbysodd mam Violet Rose ei bod ar goll.

Fe hysbyswyd yr heddlu am ddigwyddiad pellach ar 03.03.23 pan wnaeth merched o ysgol gyntaf Violet Rose deithio i dŷ ei hewythr a chnocio ar ei ddrws ffrynt i aflonyddu ar Violet Rose a'i dychrynu. Roedd nifer o gyfathrebiadau maleisus trwy'r cyfryngau cymdeithasol hefyd a ddarparwyd ar gyfer yr heddlu. Hefyd, dywedwyd wrth yr heddlu fod y merched hyn wedi bwlio Violet Rose yn ei hysgol gyntaf. Nid oedd unrhyw gofnod o gysylltu â'r ysgol i ganfod a oedd ganddynt unrhyw gofnod o fwlio yn yr ysgol ac, er bod Violet Rose a'i mam wedi cytuno â'r awgrym i 'roi geiriau o gyngor' i arweinydd y criw, nid oes unrhyw gofnod bod hyn wedi cael ei wneud. Ni chrëwyd Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd yn dilyn y digwyddiad hwn a wnaeth atal unrhyw ystyriaeth gan y Gwasanaethau Plant pa un a allai fod angen camau Diogelu pellach.

[7] hawliau-parch-cydraddoldeb-canllawiau-ar-gyfer-ysgolion

Roedd digwyddiad ymosod arwyddocaol wedi bod y tu allan i'r llinell amser ym mis Medi 21 hefyd, wrth gwrs, pan ymosodwyd ar Violet Rose yn y caeau chwarae lleol gan 2 ferch a oedd yn mynychu'r un ysgol. Cafodd y modd y rheolwyd y digwyddiad hwn ei adolygu fel rhan o'r ymchwiliad a gynhaliwyd ar ôl marwolaeth Violet Rose pan gyfleodd ei mam gŵyn i'r heddlu. Y canlyniad oedd bod 'methiannau amlwg i gyflawni'r ddyletswydd i ymchwilio'n effeithiol i'r mater hwn neu wneud yr ystyriaethau diogelu gofynnol ar gyfer y plant a oedd yn rhan ohono'.

## Pwynt Dysgu: Awtistiaeth ac Addysg

- **Argymhelliad 1**

**Rhaid i ysgolion cynradd ac uwchradd adolygu eu proses ar gyfer mynd ati'n gynnar i adnabod y disgyblion hynny a allai fod yn ymgyflwyno â theithi awtistig. Rhaid i'r broses bwysleisio'r angen i barchu barn rhieni a gweithio mewn partneriaeth gyda hwy i sicrhau bod anghenion y plentyn yn cael eu cydnabod a'u diwallu. Lle ceir anghytundeb rhwng rhiant ac ysgol pa un a yw plentyn yn dangos teithi niwrowahanol, rhaid i ysgolion hysbysu'r rhiant am eu hawl i herio'r ysgol ac am y cymorth sydd ar gael iddynt.[8] Rhaid i adran Addysg yr Awdurdod Lleol ddarparu sicrwydd i'r Bwrdd Diogelu bod hyn wedi cael ei wneud o fewn y ffrâm amser a nodir yn y Cynllun Gweithredu.**

O'r wybodaeth a oedd ar gael i'r adolygwyr, roedd hi'n amlwg bod llawer o nodweddion niwrowahanol Violet Rose yn bresennol yn ei blynyddoedd cynnar, a bod ceisiadau rhieni am asesiad awtistiaeth i'w gweld fel pe baent wedi cael eu diystyru. Mae dealltwriaeth athrawon am awtistiaeth yn hanfodol i allu disgyblion awtistig i deimlo'u bod yn cael eu cefnogi yn yr ystafell ddosbarth. Bydd nifer o blant a phobl ifanc awtistig yn 'celu' eu nodweddion a gallant ymddangos yn gysurus yn yr ysgol ond efallai y byddant wedyn yn diffygio ac yn mynegi eu hanghysur yn yr ysgol pan ydynt yn ôl gartref. Felly, mae angen i weithwyr proffesiynol fod yn effro i ddisgrifiadau rhieni o ymddygiadau gwahanol yn amgylchedd y cartref, nad ydynt i'w priodoli i arddulliau rhianta o bosibl.

Mae ar yr holl athrawon a staff ysgolion mewn addysg gynradd ac uwchradd angen hyfforddiant i ddeall awtistiaeth ac anghenion cymorth penodol y plant yn eu hysgol. Heb y ddealltwriaeth ysgol gyfan hon, bydd disgyblion awtistig yn syml yn peidio â chael y cymorth y mae ei angen arnynt ac mae hyn yn debygol o effeithio'n negyddol ar eu potensial a'u presenoldeb. Mae lleoliadau sydd heb ddealltwriaeth am awtistiaeth yn aml yn trin 'tarfu' gan ddisgyblion awtistig yn yr un ffordd ag y byddent yn ei drin gan ddisgyblion nad ydynt yn awtistig. Fodd bynnag, mae'r ymddygiad hwn yn aml yn arwydd nad yw angen plentyn awtistig am gymorth yn yr ysgol yn cael ei ddiwallu a bod y plentyn wedi'i orlethu.

## Pwynt Dysgu: Awtistiaeth ac Iechyd Meddwl

- **Argymhelliad 2**

**Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y Cynllun Gwella Niwroddatblygiad yn parhau i gryfhau capasiti gwasanaethau.**

---

[8] Canllaw i rieni am hawliau o dan y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) [HTML] | LLYW.CYMRU
Home - Snap Cymru

**Rhaid i'r Bwrdd Iechyd weithredu'n briodol, gan gynnwys uwchgyfeirio lle y bo angen, i wneud yn siŵr bod digon o adnoddau i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc y mae arnynt angen asesiadau niwroddatblygiadol. Rhaid:**

- **Mynd ati'n barhaus i werthuso'r galw a chapasiti yn y Llwybr Niwroddatblygiadol i adnabod bylchau, oedi, a thagfeydd ar draws y Bwrdd Iechyd Lleol.**
- **Bod cydweithio parhaus rhwng CAMHS a'r gwasanaeth Niwroddatblygiadol i leihau dyblygu, symleiddio prosesau, a chyflymu mynediad at asesiadau.**
- **Gwneud rhagor o waith i ddatblygu'r clinig CAMHS-Gwasanaeth Niwroddatblygiadol ar y cyd i fynd ati'n llawn i wreiddio model cymorth cydgysylltiedig, cofleidiol ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.**

**Rhaid i CAMHS ddarparu adroddiadau diweddaru ar gyfer y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol trwy ei Is-grŵp Sicrhau Ansawdd a Pherfformiad Gwasanaethau Plant i fonitro cynnydd y camau gweithredu hyn.**

Er bod y Rhaglen Wella Genedlaethol yn canolbwyntio ar leihau amseroedd aros ar gyfer asesiadau diagnostig, mae'n dal i fod yn hanfodol bod y gwasanaeth niwroddatblygiadol yn parhau i gryfhau cydweithio gyda gwasanaethau addysg a gofal cymdeithasol, gan sicrhau bod gwasanaethau seiliedig-ar-anghenion nad ydynt yn ddibynnol ar ddiagnosis yn hygyrch i deuluoedd y mae arnynt angen cymorth. Cafodd yr adolygwyr eu hysbysu gan yr Aelod o'r Panel a oedd yn cynrychioli'r Bwrdd Iechyd Lleol, y Cyfarwyddwr Clinigol ar gyfer CAMHS a'r Arweinydd Gweithrediadol ar gyfer y Gwasanaeth Asesu Niwrowahaniaeth Pediatrig bod y llwybr asesu niwroddatblygiadol wedi newid ers marwolaeth Violet Rose a'i bod bellach yn bosibl i CAMHS atgyfeirio'n uniongyrchol at y Gwasanaeth Niwroddatblygiadol, er y byddai'n dal yn ofynnol cael gwybodaeth gan yr ysgol i oleuo ac ategu'r broses asesu. Bydd y clinig CAMHS-Gwasanaeth Niwroddatblygiadol a ddatblygwyd ar y cyd bellach o fudd i bobl ifanc a adnabyddir fel rhai risg uchel, megis y rhai sy'n cael cysylltiadau lluosog â CAMHS, a byddai'n ategu dull llwybr carlam.

- **Argymhelliad 3**

**Rhaid i CAMHS y Bwrdd Iechyd Lleol, ynghyd ag Adran Addysg a Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol, adolygu effeithiolrwydd trefniadau cyfredol sydd yn eu lle i gefnogi pobl ifanc sy'n aros am asesiad niwroddatblygiadol ac sydd hefyd yn ymgyflwyno ag iechyd meddwl gwael. Rhaid i'r adolygiad:**

- **Werthuso digonolrwydd a hygyrchedd cymorth interim a roddir i deuluoedd tra bo asesiad niwroddatblygiadol ffurfiol yn yr arfaeth.**
- **Sicrhau bod cydweithio amlasiantaeth yn effeithiol o ran diwallu anghenion y person ifanc yn ystod y cyfnod aros.**
- **Sicrhau bod cynlluniau diogelwch yn adlewyrchu anghenion sy'n gysylltiedig â niwrowahaniaeth tebygol ac ymdrin â diogelwch gan ystyried y ffactorau ychwanegol hyn sy'n gwneud pobl ifanc yn agored i niwed.**[9]

[9] Autism Adapted Safety Plans | Neurodevelopment and Disability | Newcastle University

- **Sicrhau bod teuluoedd a gweithwyr proffesiynol perthnasol yn cael gwybodaeth ac adnoddau i'w helpu i gefnogi iechyd meddwl eu plentyn tra ydynt yn aros am asesiad.**

**Rhaid i CAMHS ac Adran Addysg yr Awdurdod Lleol ddarparu adroddiadau diweddaru i'r Bwrdd Diogelu i fonitro cynnydd y camau gweithredu hyn.**

Ni chafodd Violet Rose unrhyw wasanaeth gan CAMHS ar ôl mis Mehefin 2022 ond fe barhaodd i brofi gorbryder trallodus a hwyliau isel, ynghyd â hunan-niwed parhaus. Yr ysgol oedd yr unig asiantaeth a oedd yn ymwybodol o'r trallod emosiynol parhaus, gan na wnaed unrhyw atgyfeiriadau pellach at CAMHS a chan na chafodd ei gweld gan wasanaethau meddyg teulu. Dywedwyd wrth yr Adolygwyr fod gwasanaeth mewngymorth CAMHS i ysgolion o'r enw SHINE (Gwasanaeth Mewngymorth Lles Emosiynol i Ysgolion) yn bodoli bellach, sy'n gweithio gydag ysgolion i wreiddio 'dull ysgol gyfan' o ymdrin ag iechyd emosiynol ac iechyd meddwl. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cymorth i athrawon a rhieni ac ymyriadau unigol ac mewn grŵp i ddisgyblion. Mae'r gwasanaeth hwn yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru.[10]

- **Argymhelliad 4**

**Er mwyn gwella atgyfeiriadau amserol a sicrhau cymorth priodol, rhaid i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, fel rhan o'i gynllun hyfforddi blynyddol amlasiantaeth, ddarparu hyfforddiant ar nifer yr achosion o awtistiaeth, y risgiau y gall pobl ifanc awtistig eu hwynebu, a sut y gall awtistiaeth effeithio ar eu hiechyd meddwl. Dylai ysgolion ac Adrannau Addysg Awdurdodau Lleol adolygu a chryfhau eu hyfforddiant i athrawon ar adnabod a chefnogi plant ar y sbectrwm awtistig. Rhaid cyflwyno tystiolaeth o gydymffurfio â'r argymhelliad hwn i'r Bwrdd Diogelu trwy ei is-grŵp Hyfforddi a Dysgu.**

Er bod Violet Rose yn ymgyflwyno yn yr ysgol ag arwyddion eglur o anhwylder ar y sbectrwm awtistig, fe geisiodd hi gymorth ar gyfer ei hiechyd meddwl hefyd. Ceir 10 cofnod ar y llinell amser o ddigwyddiadau arwyddocaol yn yr ysgol a oedd yn ymwneud â'i hiechyd meddwl rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2022. Ar ddiwedd mis Ebrill y cyflwynwyd cais gan yr ysgol i'r Tîm Cyfathrebu a Pherthnasoedd am arsylwad niwroddatblygiadol. Hon oedd ei 3edd flwyddyn yn yr ysgol uwchradd, er bod pandemig Covid wedi bwrw cysgod dros ei blwyddyn gyntaf a'i hail flwyddyn. Nid yw'n ymddangos o'r llinell amser bod unrhyw gyswllt wedi cael ei wneud rhwng ei hanhwylder tebygol ar y sbectrwm awtistig a'i materion iechyd meddwl.

## Pwynt dysgu: Cyfathrebu

- **Argymhelliad 5**

**Rhaid i asiantaethau statudol beidio â dibynnu'n llwyr ar rieni neu ofalwyr i rannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau. Rhaid hysbysu rhieni'n briodol ond ni ddylid eu rhoi mewn sefyllfa lle maent yn gyfryngwyr ar gyfer cyfathrebu proffesiynol:**

[10] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/fframwaith-ar-sefydlu-dull-ysgol-gyfan-ar-gyfer-llesiant-emosiynol-a-meddyliol.pdf

- **Rhaid i CAMHS ac ysgolion sicrhau bod cyfrifoldebau cyfathrebu a chyswllt rhwng gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau'n cael eu nodi'n glir mewn polisïau a gweithdrefnau lleol**
- **Rhaid i ysgolion, CAMHS a Gwasanaethau Plant sefydlu llwybrau cyfathrebu uniongyrchol i gydlynu ymyriadau, lleihau dyblygu, a sicrhau bod cymorth yn gyson, yn seiliedig ar wybodaeth ac yn canolbwyntio ar y plentyn.**
- **Rhaid i ysgolion, CAMHS a Gwasanaethau Plant adolygu eu prosesau mewn perthynas â rhannu gwybodaeth i sicrhau bod gwybodaeth sydd o gymorth i ddiogelu'r holl blant sy'n wynebu risg yn cael ei rhannu'n amserol ac yn effeithiol.**

Mae angen cyfathrebu mwy effeithiol o fewn a rhwng asiantaethau i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu ac y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd i asiantaethau gydweithio. Ni ddylai gweithwyr proffesiynol ddibynnu ar rieni i rannu gwybodaeth am eu hymyriadau ond dylent gyfathrebu'n glir gyda'i gilydd.

Mae'r Adolygwyr wedi cael eu hysbysu bod CAMHS bellach yn rhannu gwybodaeth berthnasol gyda'r ysgol pan roddir cydsyniad, felly er bod un gwasanaeth wedi cymryd camau ymlaen yn ôl pob golwg, mae angen datblygiad pellach gan y Gwasanaethau Addysg a Phlant i sicrhau cysondeb.

- **Argymhelliad 6**

**Rhaid i'r Bwrdd Diogelu fod wedi'i sicrhau bod gweithdrefnau effeithiol yn eu lle i ategu trosglwyddiad plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol rhwng lleoliadau addysgol. Rhaid i Adran Addysg yr Awdurdod Lleol:**

- **Adolygu prosesau trosglwyddo cyfredol, adnabod cryfderau neu fylchau a sicrhau bod bylchau'n cael eu llenwi**
- **Sicrhau bod ysgolion yn cofrestru disgyblion cyn gynted â'u bod yn cael eu cyfarwyddo i wneud hynny gan yr Awdurdod Addysg.**
- **Sicrhau bod cynllunio ar gyfer trosglwyddo rhwng ysgolion yn cael ei wneud a bod cyfarfodydd trosglwyddo ar y cyd gyda chynlluniau cymorth eglur yn cael eu hybu.**

**Rhaid i Adran Addysg yr Awdurdod Lleol ddarparu tystiolaeth o gydymffurfio â'r argymhelliad hwn i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.**

Mae'r Adolygwyr wedi cael eu hysbysu, ers y digwyddiad hwn, bod y broses drosglwyddo wedi cael ei chryfhau i wella cyfathrebu a'r modd y trosglwyddir dogfennaeth. Fodd bynnag, mae hyn yn anecdotaidd yn seiliedig ar sylwadau gan un ysgol yn y Digwyddiad Dysgu.

- **Argymhelliad 7**

**Rhaid i Wasanaethau Plant ddarparu sicrwydd ar gyfer y Bwrdd Diogelu bod prosesau ar gyfer atgyfeirio at y gwasanaeth Cymorth Cynnar a'r Hyb Diogelu Amlasiantaeth (MASH) yn eglur, yn gyson ac yn cynnwys trefniadau i roi adborth amserol i'r atgyfeirydd gwreiddiol ar ganlyniad pob atgyfeiriad. Rhaid i'r holl drafodaethau ac ymgyngoriadau proffesiynol gael eu cofnodi gan staff MASH.**

**Rhaid i Wasanaethau Plant ddarparu tystiolaeth ar gyfer y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol sy'n cadarnhau eu bod yn ateb y gofyniad hwn.**

Fe wnaed nifer o atgyfeiriadau at y gwasanaeth Cymorth Cynnar ac at MASH. Fe wrthododd mam Violet Rose wasanaethau ar bob achlysur. Nid oes cyfeiriad yn y llinell amser at wneud yr asiantaeth a atgyfeiriodd yn ymwybodol o ganlyniad ei hatgyfeiriad. Nid oes tystiolaeth ychwaith y gofynnwyd i Violet Rose a oedd arni eisiau unrhyw gymorth.

- **Argymhelliad 8**

**Dylai CAMHS gwblhau archwiliad o'u prosesau cyfathrebu i sicrhau bod Meddygon Teulu'n cael gwybodaeth a llythyrau. Rhaid i CAMHS ddarparu tystiolaeth i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn cadarnhau eu bod yn ateb y gofyniad hwn.**

Daeth hi'n amlwg yn y Digwyddiad Dysgu na chafodd y meddyg teulu erioed y ddau lythyr yr oedd y Seiciatrydd Ymgynghorol CAMHS wedi'u hysgrifennu at y practis gyda chanlyniad eu hasesiad a'r cynllun i ryddhau Violet Rose o CAMHS. Dywedwyd wrth yr Adolygwyr gan Gyfarwyddwr Clinigol cyfredol CAMHS fod problemau gyda chapasiti gweinyddu yn CAMHS ar y pryd a bod y rhain bellach wedi cael eu datrys.

**<u>Pwynt Dysgu: Llais y Plentyn</u>**

- **Argymhelliad 9**

**Rhaid i Wasanaethau Plant ac Ysgolion adolygu eu prosesau a bod wedi'u sicrhau eu bod yn gwrando ar lais y plentyn mewn perthynas ag atgyfeiriadau ar gyfer Cymorth Cynnar, asesiad Gofal a Chymorth a phan fo pryderon ynghylch Diogelu. Rhaid i Wasanaethau Plant a'r Adran Addysg ddarparu tystiolaeth ar gyfer y Bwrdd Diogelu fod gwelliant wedi digwydd o fewn y ffrâm amser y cytunwyd arni yn y Cynllun Gweithredu.**

Rhaid i'r holl asiantaethau sicrhau bod eu prosesau'n cynnwys siarad yn uniongyrchol gyda'r plentyn neu'r person ifanc. Roedd achlysuron pan na wnaeth yr ysgol (mewn perthynas â hysbysiadau ei mam am fwlio cyson), y Gwasanaeth Cymorth Cynnar na MASH siarad gyda Violet Rose am fater, digwyddiad neu atgyfeiriad penodol ac y dibynnwyd ar ei mam i hysbysu ynghylch barn a dymuniadau Violet Rose. Mae'n arbennig o bwysig, pan gysylltir â rhieni a bod gwasanaethau'n cael eu gwrthod, y gwneir pob ymgais i wrando ar lais y plentyn a pheidio â dibynnu dim ond ar y rhiant i siarad ar ran y plentyn.

**<u>Pwynt Dysgu: Bwlio</u>**

- **Argymhelliad 10**

**Rhaid i'r holl ysgolion adolygu eu polisïau gwrth-fwlio i sicrhau bod gan staff ganllawiau ynghylch pa gamau gweithredu ddylent eu cymryd os ydynt yn cael eu hysbysu am ddigwyddiadau bwlio oddi ar y safle neu sy'n cynnwys disgyblion o ysgolion eraill. Rhaid i bolisïau gynnwys canllawiau ynghylch pryd i hysbysu'r Heddlu'n uniongyrchol a phryd i hysbysu'r Awdurdod Lleol dan Weithdrefnau**

**Diogelu Cymru.**[11] **Rhaid i Adran Addysg yr Awdurdod Lleol ddarparu tystiolaeth i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol pan fo'r cam gweithredu hwn wedi cael ei gwblhau.**

Roedd hi'n amlwg i'r Adolygwyr bod Violet Rose wedi profi bwlio, er bod hyn y tu allan i'r diwrnod ysgol ac ar-lein i raddau helaeth, mwy na thebyg. Nid oes rhyw lawer o ganllawiau ar gael i staff ar hyn o bryd ynghylch sut y dylent reoli'r sefyllfaoedd hyn.

- **Argymhelliad 11**

**Er mwyn sicrhau bod ymatebion i honiadau am fwlio, ymosod, aflonyddu neu gyfathrebu maleisus gan bobl ifanc yn erbyn eu cyfoedion, boed y rheiny'n ddigwyddiadau ar neu oddi ar safle'r ysgol, yn gadarn ac y gweithredir yn briodol, mae cydweithio amlasiantaeth yn hanfodol. Dylai Llywodraeth Cymru arwain Adolygiad o'r polisi 'Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru: Protocol Rhawdau Troseddau Ysgolion' sy'n cynnwys partneriaid allweddol (Heddlu, Ysgolion, Cyfiawnder Ieuenctid, a Gwasanaethau Addysg a Phlant Awdurdodau Lleol) i ategu dull eglur, graddol a chydgysylltiedig. Rhaid i'r polisi hefyd gyd-fynd â systemau asiantaethau partner fel bod gan weithwyr proffesiynol fynediad amserol at wybodaeth gywir, a rennir, gan ei gwneud yn bosibl gwneud penderfyniadau gwybodus ac ymyrryd yn gynnar.**

**Rhaid i ysgolion yn arbennig ddarparu canllawiau ar gyfer eu staff ynghylch yr angen i gwblhau a chynnal cronolegau sy'n cynnwys gwybodaeth am nifer a natur y digwyddiadau dros amser (yn hydredol) ac adolygu'r gronoleg wrth ymdrin â phob digwyddiad unigol. Ni ddylid ystyried digwyddiadau ar wahân. Rhaid i Adran Addysg yr Awdurdod Lleol ddarparu tystiolaeth ar gyfer y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol pan fo'r cam gweithredu hwn wedi cael ei gwblhau.**

Ceir cyfeiriadau yn y llinell amser bod mam Violet Rose wedi gwneud honiadau am fwlio cyson. Roedd yr Adolygwyr yn teimlo na chafodd yr honiadau hyn eu harchwilio'n llawn gan yr ysgol gyda'r fam na chyda Violet Rose. Ar un achlysur, gofynnodd aelod o staff i ffrind Violet Rose a oedd hi'n cael ei bwlio a dywedodd y ffrind nad oedd hi. Roedd hi'n ymddangos mai dyna oedd diwedd y mater. Nid oes cofnod o siarad gyda Violet Rose.

**Lledaenu'r dysgu**
Rhestr o dderbynwyr a fydd yn cael copïau o Adroddiad yr Adolygiad (yn unol â Chanllawiau Statudol ADUS ac yn sgil argymhellion yr Adroddiad):
Cofiwch gynnwys manylion y derbynnydd, y rheswm dros rannu a'r dyddiad dosbarthu:

Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun.

**Y broses ADUS**

Yn gryno, dylid cynnwys:
- Y broses a ddilynwyd gan y Bwrdd a'r gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y Panel Adolygu
- Digwyddiad Dysgu wedi'i gynnal a'r gwasanaethau a oedd yn bresennol

[11] Diogelu Cymru

| |
|---|
| • Aelodau'r teulu wedi cael gwybodaeth, ceisiwyd eu barn a chawsant eu cynrychioli drwy gydol y digwyddiad dysgu. Rhoddwyd adborth iddynt pan oedd hynny'n briodol. Pan nad oedd hynny'n briodol, dylid bod wedi rhoi eglurhad.<br><br>Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun. |
| **Gwiriad terfynol**<br><br>Mae'r Adroddiad hwn wedi'i wirio i sicrhau bod y broses ADUS wedi'i dilyn yn gywir a bod yr Adroddiad wedi'i gwblhau fel y nodir yn y canllawiau statudol.<br><br>Rwy'n cadarnhau bod yr adran hon o'r Adroddiad o safon sy'n barod i'w chyhoeddi ☒ |

| | |
|---|---|
| **A yw'r Adroddiad hwn yn cynnwys agweddau sy'n bodloni'r gofynion a ganlyn ar gyfer cynnal Adolygiad Lladdiad Domestig?**<br><br>*Mae marwolaeth person 16 oed neu hŷn wedi digwydd, neu'n ymddangos ei bod wedi digwydd, o ganlyniad i drais, camdriniaeth, neu esgeulustod gan—*<br>*a) person y mae'n perthyn iddo neu yr oedd mewn perthynas agos ag ef, neu*<br>*b) aelod o'r un aelwyd*<br><br>Os mai 'ydy' yw'r ateb, ar ôl ei gwblhau a'i gadarnhau gan Gadeirydd y Bwrdd Diogelu ac mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, rhaid anfon Adroddiad yr ADUS i sylw Panel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref. | ☐ |

**At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad daeth gwybodaeth i law:** | Cliciwch neu tapiwch i ychwanegu dyddiad. |
| **Dyddiad anfon e-bost cydnabod at Gadeirydd y Bwrdd:** | Cliciwch neu tapiwch i ychwanegu dyddiad. |
| **Dyddiad rhannu ag Arweinwyr Polisi perthnasol:** | Cliciwch neu tapiwch i ychwanegu dyddiad. |
| **Dyddiad cyflwyno gerbron cyfarfod o Grŵp Tasg a Chydlynu Mewnol ADUS:** | Cliciwch neu tapiwch i ychwanegu dyddiad. |

## Datganiadau Annibyniaeth

**Datganiad Annibyniaeth gan yr Adolygydd / Adolygwyr:**

Darllenwch a llofnodwch y datganiad a ganlyn. Cyn cwblhau'r adran hon, rhowch sylw i adran 6.32 o Ganllawiau Statudol ADUS ynglŷn ag annibyniaeth.

**Adolygydd 1: Jackie Neale**

**Adolygydd 2: Nicola Jones**

**Datganiad annibyniaeth o'r achos**
*Datganiad terfynol o ran cymhwysedd*

Rwy'n datgan, cyn imi ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn, fod y canlynol yn wir :

- Nad wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r achos nac wedi cael unrhyw reolaeth neu oruchwyliaeth dros yr achos.
- Rwy'n meddu ar y cymwysterau, yr wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant priodol er mwyn cynnal yr adolygiad. Rwyf felly'n bodloni'r meini prawf Cadeirydd / Adolygydd Cymeradwy.
- Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac yn drylwyr o ran dadansoddi a gwerthuso'r materion fel yr amlinellir yn y Cylch Gorchwyl. Rwy'n cydnabod mai diben hyn yw nodi gwersi a ddysgwyd o'r achos, nid priodoli bai i ymarferwyr neu asiantaethau.
- Rwyf wedi darllen a deall y 7 Egwyddor Nolan a byddaf yn eu cymhwyso yn briodol.

**Llofnod:**

**Enw: Jackie Neale**
**Dyddiad:** 09/04/2026

**Llofnod:**

**Enw: Nicola Jones**
**Dyddiad:** 09/04/2026

**Datganiad Annibyniaeth gan Gadeirydd y Panel Adolygu:**
Darllenwch a llofnodwch y datganiad a ganlyn. Cyn cwblhau'r adran hon, rhowch sylw i adran 6.18 o Ganllawiau Statudol ADUS:

*Datganiad terfynol o ran cymhwysedd*

| |
|---|
| Rwy'n datgan, cyn imi ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn, fod y canlynol yn wir:<br>• Nad wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r achos nac wedi cael unrhyw reolaeth neu oruchwyliaeth dros yr achos.<br>• Rwy'n meddu ar y cymwysterau, yr wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant priodol er mwyn cynnal yr adolygiad. Rwyf felly'n bodloni'r meini prawf Cadeirydd / Adolygydd Cymeradwy.<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac yn drylwyr o ran dadansoddi a gwerthuso'r materion fel yr amlinellir yn y Cylch Gorchwyl. Rwy'n cydnabod mai diben hyn yw nodi gwersi a ddysgwyd o'r achos, nid priodoli bai i ymarferwyr neu asiantaethau.<br>• Rwyf wedi darllen a deall y 7 Egwyddor Nolan a byddaf yn eu cymhwyso yn briodol. |
| **Llofnod:**<br><br>**Enw: Robert Wigmore**<br>**Dyddiad:** 09/04/2026 |

## Aelodau o'r Panel Adolygu

Nifer o weithiau y mae'r Panel wedi cyfarfod: 10

| Rôl a theitl swydd | Asiantaeth | Annibyniaeth wedi'i chadarnhau |
|---|---|---|
| Rheolwr yr Adolygiad Statudol | Heddlu De Cymru | ☒ |
| Rheolwr Grŵp Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy a Diogelu | Gwasanaethau Plant | ☒ |
| Arweinydd Diogelu | Tai Wales & West | ☒ |
| Gofal a Diogelwch Cleifion | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | ☒ |
| Addysg ac Ymgysylltu | Awdurdod Lleol | ☒ |
| Rheolwr | Gweithredu dros Blant | ☒ |

# Telerau Gorchwyl

## Tasgau craidd

- Penderfynu a yw penderfyniadau a chamau gweithredu yn yr achos yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r Bwrdd a'r gwasanaethau a enwir.
- Archwilio'r gweithio'n rhyngasiantaethol a'r ddarpariaeth gwasanaeth ar gyfer yr unigolyn a'r teulu.
- Penderfynu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a chamau gweithredu yn canolbwyntio ar ganlyniadau.
- Ymdrechu i geisio cyfraniadau aelodau priodol o'r teulu i'r adolygiad a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am agweddau allweddol ar gynnydd.
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau, adolygiadau neu achosion cyfochrog sy'n gysylltiedig â'r achos.
- Cynnal digwyddiad dysgu ar gyfer ymarferwyr a nodi'r adnoddau angenrheidiol i ganfod pa wersi sydd i'w dysgu o'r digwyddiad.
- Nodi'n glir beth yw'r gwersi, o fewn asiantaethau a rhyngddynt, sut y byddant yn eu rhoi ar waith, yr amserlenni ar gyfer gwneud hynny a'r hyn y disgwylir iddo newid o ganlyniad;
    - Cymhwyso'r gwersi hyn i ymatebion y gwasanaeth gan gynnwys newidiadau i'r polisïau a'r gweithdrefnau fel y bo'n briodol;
    - Atal lladdiadau domestig a gwella ymatebion gwasanaethau i bob dioddefwr trais domestig a'u plant drwy wella gweithio o fewn asiantaethau a rhyngddynt;
    - Cyfrannu at ddealltwriaeth well am natur trais a cham-drin domestig;
    - Amlygu arfer da.

## Yn ogystal â'r broses adolygu, dylid ystyried y canlynol:

- A oedd hanes neu wybodaeth berthnasol flaenorol am yr unigolyn a oedd yn wynebu risg a/neu aelodau'r teulu yn hysbys ac yn cael ei hystyried wrth i weithwyr proffesiynol gwblhau asesiadau, cynllunio a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r oedolyn a oedd yn wynebu risg, y teulu, a'u hamgylchiadau. Sut y cyfrannodd yr wybodaeth honno at y canlyniad i'r unigolyn a oedd yn wynebu risg.
- A oedd y camau a nodwyd i ddiogelu'r unigolyn a oedd yn wynebu risg yn gadarn ac yn briodol ar gyfer y person hwnnw a'i amgylchiadau.
- A roddwyd camau gweithredu ar waith, eu monitro a'u hadolygu yn effeithiol ac a wnaeth pob asiantaeth gyfrannu'n briodol at ddatblygu a chyflawni'r camau gweithredu amlasiantaeth.
- Yr agweddau ar y camau gweithredu a weithiodd yn dda a'r rhai na weithiodd cystal, a'r rhesymau dros hynny. I ba raddau yr heriodd asiantaethau ei gilydd ynghylch effeithiolrwydd y camau gweithredu, gan gynnwys cynnydd o ran y canlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer yr unigolyn a oedd yn wynebu risg. A roddwyd y protocol ar gyfer anghytundeb proffesiynol ar waith.
- A gafodd priod ddyletswyddau statudol asiantaethau a oedd yn gweithio gyda'r unigolyn a oedd yn wynebu risg a'r teulu eu cyflawni.
- A oedd rhwystrau neu anawsterau yn yr achos hwn a oedd yn atal asiantaethau rhag cyflawni eu dyletswyddau (dylai hyn gynnwys ystyried materion sefydliadol a materion cyd-destunol eraill).

## Tasgau penodol y Panel Adolygu

- Nodi a chomisiynu adolygydd/adolygwyr i weithio gyda'r Panel Adolygu yn unol â'r canllawiau.
- Cytuno ar yr amserlen.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad, creu llinell amser a chrynodeb cychwynnol o achosion a nodi unrhyw gamau gweithredu sydd eisoes wedi'u cymryd.
- Llunio llinell amser gyfunol, dadansoddiad cychwynnol, a rhagdybiaethau.
- Cynllunio digwyddiad neu ddigwyddiadau dysgu ar gyfer ymarferwyr gyda'r adolygydd/adolygwyr, gan gynnwys nodi mynychwyr a threfniadau ar gyfer eu paratoi a'u helpu cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau ar gyfer adborth.
- Cynllunio gyda'r adolygydd / adolygwyr drefniadau cyswllt â'r unigolyn ac aelodau'r teulu cyn y digwyddiad.
- Derbyn ac ystyried adroddiad drafft yr ADUS er mwyn sicrhau bod y Cylch Gorchwyl wedi'i fodloni, bod sylw wedi'i roi i'r rhagdybiaethau cychwynnol, a bod unrhyw ddysgu ychwanegol yn cael ei nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau'r adolygiad a chynllun gweithredu amlinellol a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r Bwrdd i'w hystyried a chytuno arnynt.
- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl i'r adolygiad ddod i ben a chyn iddo gael ei gyhoeddi.

## Tasgau'r Bwrdd Diogelu

- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu'r Bwrdd i'w hymgorffori yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.
- Sicrhau bod y Panel Adolygu yn cwblhau'r adroddiad a'r cynllun gweithredu.
- Anfon yr adroddiad i asiantaethau perthnasol ar gyfer sylwadau terfynol cyn ei gymeradwyo, a chyn iddo gael ei gyhoeddi, ei gyflwyno ar y cyd â'r cynllun gweithredu i Lywodraeth Cymru (ac o ran achosion o Laddiad Domestig, i'r Swyddfa Gartref).
- Cadarnhau trefniadau i'r Is-Grŵp Adolygu reoli'r cynllun gweithredu amlasiantaeth, gan gynnwys sut y bydd gwelliannau disgwyliedig i wasanaethau yn cael eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.
- Cynllunio'r gwaith cyhoeddi ar wefan y Bwrdd a gwefan Hwb Cydgysylltu ADUS.
- Cytuno i ledaenu'r dogfennau i asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol.
- Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am oruchwylio'r holl sylwadau cyhoeddus ac ymatebion i ddiddordeb y cyfryngau yn ymwneud â'r adolygiad hyd nes y bydd y broses wedi'i chwblhau.